# Cwestiynau enghreifftiol SQE1: Gwybodaeth Gyfreithiol Weithredol (FLK) 2

1 Ebrill 2025

SQE1 yw rhan gyntaf yr asesiad SQE ac mae'n profi eich gallu i ddefnyddio gwybodaeth gyfreithiol weithredol (FLK). Mae strwythur SQE1 wedi'i nodi isod. Prawf amlddewis ar gyfrifiadur yw hwn, sydd ag un ateb gorau i bob cwestiwn.

Rydym yn darparu 170 o gwestiynau enghreifftiol ar gyfer SQE1. Caiff y rhain eu rhannu'n gyfartal rhwng FLK1 (85 cwestiwn) ac FLK2 (85 cwestiwn). Ar ôl pob cwestiwn awgrymir pump ateb posibl. Yr ateb cywir yw'r gorau o'r datganiadau a restrir, a chaiff yr ateb ei nodi gyda'r cwestiynau enghreifftiol. Dim ond un ateb sy'n gywir.

## Diben y cwestiynau enghreifftiol

Cafodd y cwestiynau enghreifftiol eu cynllunio i ddangos y math o gwestiynau a geir yn yr asesiadau FLK1 ac FLK2 a thrwy hynny maent yn helpu darparwyr addysg ac ymgeiswyr i gynllunio hyfforddiant SQE ac i baratoi at yr asesiad. Mae'r cwestiynau enghreifftiol yn dilyn yr un arddull a chawsant eu llunio yn unol â'r un broses â'r cwestiynau a ddefnyddir yn yr asesiad.

Nid yw'r 170 o gwestiynau enghreifftiol yn cynrychioli'r holl ddeunydd sydd wedi'i gynnwys yn FLK ac ni chawsant eu cynllunio i fod yn gopi o asesiad SQE1 ei hun, nac i fod yn ffug-asesiad. Does dim modd ail-greu'r profiad o sefyll SQE1 go iawn o weithio trwy'r 170 o gwestiynau enghreifftiol, gan fod yr asesiad go iawn dan amodau llyfr caeedig ac wedi'i amseru.

Fel rhan o'u paratoadau, efallai y bydd ymgeiswyr am ystyried faint o amser sydd ganddynt i ateb cwestiynau SQE1. I'ch atgoffa, mae pob FLK yn cynnwys 180 o gwestiynau. Caiff pob FLK ei rannu'n ddwy sesiwn, a'r amser safonol a ganiateir ar gyfer pob sesiwn yw 2 awr 33 munud, gyda 90 cwestiwn ym mhob sesiwn. Felly, ar gyfartaledd, bydd gan ymgeiswyr tua 1.7 munud fesul cwestiwn. Bydd angen mwy / llai o amser i ateb rhai cwestiynau na rhai eraill.

Y dyddiad cau o safbwynt y gyfraith y bydd ymgeiswyr yn cael eu harholi arni yn SQE yw pedwar mis calendr cyn dyddiad yr asesiad cyntaf yn y ffenestr asesu.

Rydym yn mynd ati'n barhaus i adolygu'r gyfraith a dulliau ymarfer sy'n berthnasol i'r cwestiynau enghreifftiol, ac rydym yn ymwybodol y gall y gyfraith a dulliau ymarfer newid o fewn y cyfnod o bedwar mis y cyfeirir ato uchod. Bydd y cwestiynau enghreifftiol bob amser yn adlewyrchu'r gyfraith y gellir arholi arni yn yr asesiad SQE1 sydd i ddod. Os bydd newid yn y gyfraith o fewn y cyfnod o bedwar mis cyn asesiad, bydd y cwestiynau enghreifftiol yn cael eu diwygio i adlewyrchu'r newid yn y gyfraith ar ôl yr asesiad hwnnw.

## Y marc pasio

Mae'r Bwrdd Asesu yn gosod marc pasio ar gyfer **pob sesiwn arholi** o'r asesiad SQE1. Gosodir y marc pasio ar gyfer pob sesiwn arholi o'r asesiad SQE1, gan ystyried pa mor anodd yw'r cwestiynau yn y sesiwn honno. Mae hyn yn sicrhau bod safon yr asesiad yn parhau'n gyson o'r naill arholiad i'r llall.

# Strwythur SQE1 a mapio’r cwestiynau enghreifftiol

Caiff SQE1 ei ffurfio gan ddau asesiad. Mae cyfanswm o 360 o gwestiynau - 180 ym mhob asesiad. Maent yn rhoi sylw i’r meysydd pwnc canlynol:

1. Cyfraith ac Ymarfer ym maes Busnes; Datrys Anghydfodau; Contractau; Camwedd; System Gyfreithiol Cymru a Lloegr; Cyfraith Gyfansoddiadol a Gweinyddol a Chyfraith yr Undeb Ewropeaidd, a Gwasanaethau Cyfreithiol.

2. Ymarfer ym maes Eiddo; Ewyllysiau a Gweinyddu Ystadau; Cyfrifon Cyfreithwyr; Cyfraith Tir; Ymddiriedolaethau; Cyfraith ac Ymarfer ym maes Trosedd.

Mae Moeseg ac Ymddygiad Proffesiynol yn cael eu harchwilio’n dreiddiol ar draws y ddau asesiad uchod.

**Cwestiwn 1**

Mae bwrgleriaeth yn digwydd mewn siop gemwaith yn oriau mân y bore. Cafodd yr heddlu eu galw yno gan reolwr tafarn sydd wedi'i lleoli gyferbyn â'r siop gemwaith, ddeng metr i ffwrdd. Roedd rheolwr y dafarn wedi gweld y fwrgleriaeth ar system teledu cylch cyfyng (CCTV) y dafarn, ond does dim recordiad o'r fwrgleriaeth gan fod nam ar y system.

Rhoddodd y rheolwr ddatganiad i'r heddlu a oedd yn nodi, er gwaetha'r ffaith bod goleuadau'r stryd yn wael, ei fod yn adnabod y troseddwr fel dyn a arferai weithio yn y dafarn tan flwyddyn yn ôl. Mae'n rhoi enw'r dyn i'r heddlu.

Mae'r heddlu'n arestio'r dyn, sydd ag euogfarnau blaenorol am fwrgleriaeth. Yn ei gyfweliad dan rybudd â'r heddlu, mae'r dyn yn cytuno ei fod yn arfer gweithio yn y dafarn, ond mae'n gwadu iddo gyflawni'r fwrgleriaeth. Mae'r heddlu'n ystyried cynnal gweithdrefn adnabod (identification procedure).

**A fyddai gweithdrefn adnabod yn ddefnyddiol yn yr achos hwn?**

A. Byddai, gan fod y rheolwr wedi gweld y fwrgleriaeth drwy gamera teledu cylch cyfyng a fethodd â recordio'r digwyddiad.

B. Na fyddai, gan fod y rheolwr yn adnabod y dyn.

C. Byddai, gan fod y dyn yn hysbys i'r heddlu.

D. Na fyddai, gan fod y golau'n wael ar adeg y drosedd.

E. Na fyddai, gan fod gormod o bellter rhwng y siop gemwaith a'r dafarn.

**Cwestiwn 2**

Bedwar mis yn ôl, yn y Llys Ynadon, cafwyd dyn yn euog o ddwyn. Cafodd y dyn orchymyn dedfryd ohiriedig (suspended sentence) o chwe mis o garchar. Deuddeg mis yw cyfnod gweithredol y ddedfryd ohiriedig. Roedd gofyniad i gwblhau 80 awr o waith di-dâl ynghlwm wrth y gorchymyn dedfryd ohiriedig ac mae'r dyn wedi gwneud y gwaith di-dâl.

Nawr mae'r dyn wedi ei gael yn euog yn y Llys Ynadon o drosedd difrod troseddol (criminal damage) a gyflawnwyd fis yn ôl.

**A yw'r Llys Ynadon yn gallu gweithredu'r ddedfryd o garchar (custodial sentence) nawr?**

A. Ydy, gan fod y dyn wedi cyflawni trosedd yn ystod cyfnod gweithredol y gorchymyn dedfryd ohiriedig.

B. Nac ydy, gan nad yw'r drosedd newydd yn galw am ddedfryd o garchar.

C. Nac ydy, gan fod y dyn wedi cwblhau'r gofyniad a oedd ynghlwm wrth y gorchymyn dedfryd ohiriedig.

D. Nac ydy, gan fod cyfnod gweithredol y gorchymyn dedfryd ohiriedig yn dal i fod mewn grym.

E. Ydy, gan fod y dyn wedi cyflawni trosedd o fewn y cyfnod o chwe mis o garchar a osodwyd.

**Cwestiwn 3**

Bu farw dyn gan adael ewyllys a oedd yn nodi ei fod yn gadael ei ystad gyfan i dri ymddiriedolwr i'w dal mewn ymddiriedolaeth ar gyfer pedwar plentyn ei ffrind gorau. Bydd y plant yn etifeddu pan fyddant yn 18 oed. Mae dau o'r plant wedi troi'n 18 oed erbyn hyn ac wedi cael eu cyfran nhw o'r gronfa ymddiriedolaeth (trust fund). Mae'r ddau blentyn arall yn dal i fod o dan 18 oed. Mae'r gronfa ymddiriedolaeth yn cynnwys portffolio o gyfrannau. Bu farw un o'r ymddiriedolwyr yn ddiweddar.

**Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau a oes angen penodi ymddiriedolwr arall?**

A. Rhaid penodi ymddiriedolwr arall gan fod rhai o'r buddiolwyr (beneficiaries) yn dal i fod dan 18 oed.

B. Rhaid penodi ymddiriedolwr arall gan mai tri ymddiriedolwr gafodd eu penodi'n wreiddiol a dim ond dau ymddiriedolwr sy'n weddill.

C. Does dim angen penodi ymddiriedolwr arall gan fod yr ymddiriedolaeth wedi dod i rym ar ôl marwolaeth y dyn ac nid tra bu'n fyw.

D. Does dim angen penodi ymddiriedolwr arall gan nad oes tir yn rhan o fuddsoddiadau'r ymddiriedolaeth.

E. Does dim angen penodi ymddiriedolwr arall gan fod dau ymddiriedolwr yn weddill.

**Cwestiwn 4**

Bu farw dyn fis yn ôl gan adael ewyllys sy'n enwi ei ffrind yn unig ysgutor (sole executor) iddo.

Nid yw'r ysgutor wedi gwneud cais am grant profiant (grant of probate) eto. Mae'n dymuno amddiffyn ei hun rhag hawliadau credydwyr anhysbys ac mae wedi penderfynu rhoi hysbysebion yn y London Gazette, sef papur newydd a ddosberthir yn yr ardal lle mae'r tir sy'n rhan o'r ystad, yn ogystal ag unrhyw bapur newydd neu gyhoeddiad arall a allai fod yn addas yn ei farn ef.

**Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau beth y dylai'r ysgutor ei wneud o ran yr hysbysebion er mwyn amddiffyn ei hun rhag hawliadau gan gredydwyr anhysbys?**

A. Dylai osod yr hysbysebion ac aros am ddau fis ar ôl dyddiad y grant profiant cyn dosbarthu'r ystad.

B. Dylai osod yr hysbysebion ac aros am ddau fis ar ôl dyddiad yr hysbysebion cyn dosbarthu'r ystad.

C. Dylai osod yr hysbysebion ac aros am ddau fis ar ôl dyddiad marwolaeth y dyn cyn dosbarthu'r ystad.

D. Dylai osod yr hysbysebion ond rhaid iddo aros am ddau fis ar ôl dyddiad marwolaeth y dyn cyn gwneud hynny.

E. Dylai osod yr hysbysebion ond aros am ddau fis ar ôl dyddiad y grant profiant cyn gwneud hynny.

**Cwestiwn 5**

Yn ei ewyllys, roedd ewyllysiwr (testator) wedi penodi ei wraig, ei ffrind a'i fab sy'n oedolyn i fod yn ysgutorion (executors). Cafodd yr ewyllysiwr a'i wraig ysgariad ar ôl i'r ewyllys gael ei gweithredu (executed). Erbyn hyn mae'r ewyllysiwr wedi marw. Bu farw'r mab cyn yr ewyllysiwr, a rhoddwyd y grant profiant (grant of probate) ar gyfer ystad y mab i'w nai (nephew) ef.

Roedd yr ewyllysiwr wedi gadael ei ystad gyfan i'w nith (niece) ef sy'n 20 oed.

**Pwy sydd â'r hawl orau i wneud cais am grant cynrychiolaeth (grant of representation) ar gyfer ystad yr ewyllysiwr?**

A. Cyn-wraig yr ewyllysiwr, ffrind yr ewyllysiwr a nai'r mab yn unig.

B. Ffrind yr ewyllysiwr a nith yr ewyllysiwr yn unig.

C. Ffrind yr ewyllysiwr, nai'r mab a nith yr ewyllysiwr yn unig.

D. Ffrind yr ewyllysiwr yn unig.

E. Ffrind yr ewyllysiwr a nai'r mab yn unig.

**Cwestiwn 6**

Mae cyfreithiwr yn gweithredu ar ran cleient a gafwyd yn euog o ddwyn. Mae'r cleient yn gofyn i'r cyfreithiwr gyflwyno ple lliniaru (plea in mitigation) ar ei rhan hi. Yn ystod y gwrandawiad mae'r cleient yn rhoi cyfeiriad a dyddiad geni ffug i'r llys er mwyn cuddio'r ffaith bod ganddi euogfarnau (convictions) blaenorol.

**Pa un o'r datganiadau canlynol sy'n disgrifio orau'r hyn y dylai'r cyfreithiwr ei wneud?**

A. Rhoi'r gorau i weithredu ar unwaith.

B. Peidio â chyfeirio at gymeriad nac euogfarnau blaenorol y cleient.

C. Cywiro'r wybodaeth am gyfeiriad a dyddiad geni'r cleient ar unwaith heb gyfeirio ymhellach at y cleient.

D. Peidio â chyfeirio'n uniongyrchol at euogfarnau blaenorol y cleient ond awgrymu bod ganddi gymeriad da.

E. Gofyn i'r cleient gywiro'r wybodaeth am ei chyfeiriad a'i dyddiad geni ac, os yw'n gwrthod, rhoi'r gorau i weithredu.

**Cwestiwn 7**

Mewn perthynas ag eiddo, roedd rhydd-ddeiliad (freeholder) wedi rhoi les fasnachol (commercial lease) 15 mlynedd i werthwr papurau newydd, yn 2013.

Yn ddiweddarach, roedd y gwerthwr papurau newydd wedi aseinio'r les i fanwerthwr dillad.

Roedd y manwerthwr dillad wedi aseinio'r les i fferyllydd.

Roedd y fferyllydd wedi aseinio'r les i siop lyfrau.

Cafodd yr holl aseiniadau eu gwneud gyda chaniatâd y landlord.

Er mwyn aseinio'r les i'r manwerthwr dillad, roedd angen cytundeb gwarant awdurdodedig (authorised guarantee agreement) ar y rhydd-ddeiliad oddi wrth y gwerthwr papurau newydd.

Mewn modd tebyg, roedd angen cytundeb gwarant awdurdodedig ar y rhydd-ddeiliad oddi wrth y fferyllydd er mwyn aseinio les i'r siop lyfrau.

Mae'r siop lyfrau wedi methu talu rhent y chwarter diwethaf.

**Ar wahân i'r siop lyfrau, gan bwy all y rhydd-ddeiliad adennill y rhent sy'n ddyledus?**

A. Y fferyllydd, y manwerthwr dillad a'r gwerthwr papurau newydd.

B. Y fferyllydd yn unig.

C. Y manwerthwr dillad yn unig.

D. Y gwerthwr papurau newydd yn unig.

E. Y fferyllydd a'r gwerthwr papurau newydd yn unig.

**Cwestiwn 8**

Mae cyfreithiwr yn gweithredu ar ran tenant safle busnes mewn cysylltiad â chais i roi tenantiaeth newydd, wedi i'r tenant gyflwyno (serve) cais o dan a.26 o Ddeddf Landlord a Thenant 1954 (Rhan II) (Deddf 1954).

Er nad yw'r landlord yn gwrthwynebu rhoi tenantiaeth newydd, mae'r tenant yn poeni na fyddant yn dod i gytundeb ar delerau'r denantiaeth newydd.

Mae'r cyfreithiwr yn cynghori'r tenant bod gan y llys, os na cheir cytundeb, y pŵer i orchymyn rhoi tenantiaeth newydd am gyfnod newydd.

Mae'r tenant wedi gofyn am eglurhad ynglŷn â hyd a lled pwerau'r llys.

**Os nad yw'r landlord a'r tenant yn cytuno ar delerau'r denantiaeth newydd, pa orchymyn all y llys ei wneud?**

A. Dim ond ar yr un telerau â'r denantiaeth bresennol y gall y llys orchymyn rhoi tenantiaeth newydd.

B. Dim ond ar yr un telerau â'r denantiaeth bresennol y gall y llys orchymyn rhoi tenantiaeth newydd, heblaw mewn perthynas â rhent.

C. Dim ond ar yr un telerau â'r denantiaeth bresennol y gall y llys orchymyn rhoi tenantiaeth newydd, am gyfnod nad yw'n fwy na 15 mlynedd.

D. Dim ond ar delerau y mae e'n eu pennu o dan Ddeddf 1954 y gall y llys orchymyn rhoi tenantiaeth newydd, a hynny am gyfnod nad yw'n fwy na 15 mlynedd.

E. Dim ond ar yr un telerau â'r denantiaeth bresennol y gall y llys orchymyn rhoi tenantiaeth newydd ac wedi ei chontractio allan o Ddeddf 1954.

**Cwestiwn 9**

O dan delerau ei ewyllys, mae ystad cyfarwyddwr cwmni yn mynd i gael ei dal mewn ymddiriedolaeth (hold on trust) er mwyn talu'r incwm i'w ferch gydol ei hoes, ac wedi iddi farw bydd yn cael ei rhannu rhwng holl weithwyr presennol a blaenorol ei gwmni ef.

Mae'r ferch yn ymgynghori â chyfreithiwr i ofyn a yw'r rhodd yn ddilys. Mae'r ferch yn gwrthwynebu telerau ewyllys ei thad ac mae hi hefyd yn poeni nad yw'n ymarferol. Er bod gan y ferch restr gyflawn o weithwyr presennol a blaenorol y cwmni, nid yw'n siŵr bod modd dod o hyd i bob un ohonynt.

**Pa un o'r datganiadau canlynol sy'n rhoi'r cyngor gorau ynglŷn â'r rhodd?**

A. Nid yw'r rhodd yn ddilys gan fod dosbarthiad y buddiolwyr (beneficiaries) yn anymarferol o safbwynt gweinyddol.

B. Nid yw'r rhodd yn ddilys gan nad oes modd i gwmni fod yn fuddiolwr.

C. Mae'r rhodd yn ddilys gan fod y cwmni'n dal i fodoli.

D. Mae'r rhodd yn ddilys gan fod nifer fawr o weithwyr y cwmni yn gallu elwa ohoni.

E. Mae'r rhodd yn ddilys gan fod cofnod cyflawn ar gael o weithwyr presennol a blaenorol y cwmni.

**Cwestiwn 10**

Mae ymddiriedolaeth ewyllys (will trust) yn cynnwys y ddarpariaeth ganlynol:

"Bydd fy Ymddiriedolwyr yn dal fy eiddo dal mewn ymddiriedolaeth (on trust) i ganiatáu i fy mam fyw yn yr eiddo weddill ei hoes ac, ar ôl ei marwolaeth, byddant yn dal yr eiddo mewn ymddiriedolaeth ar gyfer fy nai (nephew) a fy nith (niece) os byddant yn goroesi fy mam ac yn cyrraedd 21 oed, mewn cyfrannau cyfartal (equal shares)."

Mae'r nai bellach yn 20 oed ac mae'r nith yn 22 oed.

**Pa un o'r datganiadau canlynol sy'n disgrifio orau'r buddiannau llesiannol (beneficial interests) yn y gronfa ymddiriedolaeth?**

A. Mae gan y fam fuddiant breiniedig (vested interest) ond mae gan y nai a'r nith fuddiannau digwyddiadol (contingent interests).

B. Mae gan y fam fuddiant digwyddiadol (contingent interest) ond mae gan y nai a'r nith fuddiannau breiniedig (vested interests).

C. Mae gan y fam, y nai a'r nith i gyd fuddiannau digwyddiadol (contingent interests).

D. Mae gan y fam, y nai a'r nith i gyd fuddiannau breiniedig (vested interests).

E. Mae gan y fam a'r nith fuddiannau breiniedig (vested interests) ond mae gan y nai fuddiant digwyddiadol (contingent interest).

**Cwestiwn 11**

Mae cyfreithiwr yn gweithredu ar ran unigolyn sy'n prynu eiddo yn Lloegr sydd â theitl cofrestredig.

Mae'r unigolyn yn prynu'r eiddo gyda chymorth morgais.

Mae contractau wedi'u cyfnewid, anfonwyd y ffurflen gwybodaeth gwblhau ac ymgymeriadau (TA13), ac mae'r cyfreithiwr wedi cynnal chwiliad swyddogol gyda blaenoriaeth (OS1).

Ar ôl cwblhau, bydd angen i'r cyfreithiwr ddelio â materion ôl-gwblhau sy'n cynnwys talu Treth Dir y Dreth Stamp (Stamp Duty Land Tax - SDLT) i Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi a chofrestru'r trafodiad yn y Gofrestrfa Tir.

**Rhaid cofrestru yn y Gofrestrfa Tir o fewn 30 diwrnod gwaith ar ôl pa ddyddiad?**

A. Y dyddiad cyfnewid contractau, fel nad oes llog (interest) yn dod yn daladwy ar yr SDLT sy'n ddyledus.

B. Y dyddiad cwblhau, fel nad oes llog (interest) yn dod yn daladwy ar yr arian cwblhau sy'n ddyledus.

C. Y dyddiad cwblhau, fel nad yw teitl ecwitïol yn yr eiddo yn dychwelyd i'r gwerthwr.

D. Dyddiad canlyniad yr OS1, fel nad oes cofnodion dilynol yn cael eu gwneud ar y teitl sy'n rhwymo'r prynwr.

E. Y dyddiad cwblhau, i atal pŵer y morgeisai (mortgagee) i werthu rhag codi o dan yr arwystl cyfreithiol (legal charge).

**Cwestiwn 12**

Mae cleient wedi ymrwymo i gontract i werthu ei thŷ hi.

Ar ôl cyfnewid contractau, mae'r cleient yn gofyn am gyngor ynghylch a gaiff hi gadw'r ffitiad golau yn yr ystafell fyw. Mae wedi'i osod ar y nenfwd gyda thair sgriw fach a diweddar dad y cleient a wnaeth y ffitiad golau.

Ni chyfeirir at y ffitiad golau yn y contract.

**A oes modd i'r cleient dynnu'r ffitiad golau o'r tŷ cyn cwblhau?**

A. Nac oes, gan fod y ffitiad golau'n debygol o fod yn osodiad (fixture) gan fod cysylltiad cryf yn ei ddal yn ei le.

B. Nac oes, oherwydd byddai tynnu'r ffitiad yn golygu bod un o delerau ymhlyg (implied) y contract yn cael ei dorri gan na fyddai golau yn yr ystafell pan fydd y perchnogion newydd yn symud i mewn.

C. Nac oes, gan fod unrhyw eitem mewn eiddo yn rhan barhaol o'r tir ac ni cheir ei dynnu.

D. Oes, gan fod y ffitiad golau'n debygol o fod yn siatel am mai prin yw'r cysylltiad sy'n ei ddal yn ei le.

E. Oes, gan fod modd bob amser dynnu eitemau sydd â gwerth sentimental.

**Cwestiwn 13**

Mae cyfreithiwr yn gweithredu ar ran cleient sy’n unig berchennog eiddo rhydd-ddaliadol (freehold).

Nid yw’r eiddo’n adeilad rhestredig (listed) ac mae’n wag, ond roedd yn cael ei ddefnyddio fel swyddfa tan bum mlynedd yn ôl.

Mae’r cleient yn bwriadu gwneud gwaith mewnol yn yr eiddo er mwyn iddi allu ei osod (to let) fel tŷ annedd (dwelling) preifat unigol.

Mae hi wedi gofyn am gyngor gan y cyfreithiwr ynghylch a yw ei chynlluniau’n cael eu hystyried yn ‘ddatblygiad’ ac felly a fydd angen iddi gael caniatâd cynllunio.

**A fydd angen caniatâd cynllunio ar y cleient ar gyfer ei chynlluniau ar gyfer yr eiddo?**

A. Bydd. Er na fydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith mewnol, bydd angen caniatâd cynllunio er mwyn newid defnydd yr eiddo.

B. Na fydd. Nid yw’r gwaith mewnol na newid defnydd yr eiddo’n cael eu hystyried yn ddatblygiad oherwydd rhoddwyd gorau i’r defnydd blaenorol dros bedair blynedd yn ôl.

C. Na fydd. Nid yw’r gwaith mewnol na newid defnydd yr eiddo’n cael eu hystyried yn ddatblygiad gan mai newid i dŷ annedd preifat unigol ydyw.

D. Bydd. Bydd angen caniatâd cynllunio arni ar gyfer y gwaith mewnol ac i newid defnydd yr eiddo gan eu bod yn ddatblygiadau na chânt eu caniatâu.

E. Na fydd. Nid yw’r gwaith mewnol na newid defnydd yr eiddo’n cael eu hystyried yn ddatblygiad gan nad yw’n newid sylweddol (material change).

**Cwestiwn 14**

Mae dyn sy'n oedolyn wedi cael ei gyhuddo (charged) o ymosodiad sy'n achosi gwir niwed corfforol (actual bodily harm) i'w gariad y mae ganddo blentyn gyda hi. Mae wedi pledio'n ddieuog ac mae'r achos yn cael ei ohirio ar gyfer treial.

Mae gan y dyn amod mechnïaeth (bail) i beidio â chysylltu â'i gariad. Mae'r heddlu'n cael adroddiad gan fam ei gariad i ddweud bod y dyn yn fflat ei gariad. Mae'r heddlu'n mynd i'r fflat ac yn arestio'r dyn ar amheuaeth o dorri amod ei fechnïaeth.

Mae'r dyn yn cyfaddef ei fod wedi ymweld â'i gariad yn ei fflat hi. Mae e'n egluro bod ei gariad wedi ei ffonio ac wedi gofyn iddo ymweld gan fod eu plentyn yn sâl. Mae ei gariad wedi cadarnhau bod esboniad y dyn yn gywir.

Mae'r heddlu'n honni bod y dyn wedi torri amod ei fechnïaeth.

**Pa un o'r datganiadau canlynol yw'r disgrifiad gorau o'r sefyllfa o ran yr honiad ei fod wedi torri amod ei fechnïaeth?**

A. Nid yw'r dyn wedi torri amod ei fechnïaeth gan mai ei gariad a wnaeth y cyswllt cyntaf. Ni fydd y dyn yn wynebu unrhyw ganlyniadau yn sgil ei ymweliad â fflat ei gariad.

B. Nid yw'r dyn wedi torri amod ei fechnïaeth gan fod ganddo reswm da i fod mewn cysylltiad â'i gariad. Ni fydd y dyn yn wynebu unrhyw ganlyniadau yn sgil ei ymweliad â fflat ei gariad.

C. Mae'r dyn wedi torri amod ei fechnïaeth. Gellir ei gyhuddo o drosedd o dorri amod mechnïaeth.

D. Mae'r dyn wedi torri amod ei fechnïaeth. Bydd yn gorfod mynd gerbron y llys er mwyn i'w fechnïaeth gael ei hailystyried.

E. Mae'r dyn wedi torri amod ei fechnïaeth. Bydd yn cael ei gadw ar remánd yn y ddalfa nes bydd ei achos yn mynd i dreial.

**Cwestiwn 15**

Bu farw dyn yn ddiewyllys (intestate) fis yn ôl. Nid oedd erioed wedi priodi nac wedi bod mewn partneriaeth sifil. Roedd y dyn yn byw gyda'i bartner ar adeg ei farwolaeth; roedd wedi bod yn cyd-fyw â hi ers 20 mlynedd, yn ogystal â'i merch hi (sy'n 23 oed). Bu merch y partner yn byw gyda'r dyn a'i bartner drwy gydol eu perthynas nhw.

Roedd gan y dyn fab (sy'n 25 oed) o berthynas flaenorol a merch (sy'n 19 oed) yr oedd ef a'i bartner wedi'i mabwysiadu ddeng mlynedd yn ôl.

**Pwy sydd â hawl i gyfran wrth ddosbarthu ystad y dyn?**

A. Y partner, y mab a merch y dyn yn unig.

B. Y mab, merch y dyn a merch y partner yn unig.

C. Y mab a merch y dyn yn unig.

D. Y mab yn unig.

E. Merch y dyn yn unig.

**Cwestiwn 16**

Mae dyn wedi'i gyhuddo o ladrad. Ni chafodd gynrychiolaeth yn yr orsaf heddlu gan iddo wrthod cyngor cyfreithiol. Cytunodd y dyn i gymryd rhan mewn gweithdrefn adnabod (identification procedure) ar fideo, a chafodd ei ddewis gan un o'r tystion i'r drosedd.

Mae gan y dyn graith amlwg o dan ei lygad dde, a nodwyd gan lygad-dyst yn ei ddatganiad tyst cychwynnol. Nid oedd swyddog y fideo adnabod wedi gwneud unrhyw ymdrech i guddio'r graith ar wyneb y dyn pan roddodd ei lun ymysg y casgliad o luniau yn y weithdrefn adnabod ar fideo.

Mae cyfreithiwr bellach wedi cael ei gyfarwyddo i gynrychioli'r dyn yn ei dreial yn Llys y Goron, lle bydd y dyn yn pledio'n ddieuog. Fel rhan o waith paratoi'r cyfreithiwr ar gyfer y treial, mae wedi bwrw golwg dros y lluniau a ddefnyddiwyd ar gyfer y weithdrefn adnabod ar fideo ac wedi nodi mai dim ond dau o'r wyth llun arall sy'n dangos dynion tebyg â chraith amlwg o dan y llygad dde.

O ganlyniad, mae'r cyfreithiwr o'r farn bod modd profi bod Cod D o PACE 1984 ('Cod D') wedi cael ei dorri.

**Pa un o'r datganiadau canlynol sy'n nodi orau a fydd tystiolaeth o'r weithdrefn adnabod ar fideo yn cael ei derbyn fel tystiolaeth yn nhreial y dyn?**

A. Gall torri Cod D arwain at lys yn penderfynu gwahardd y dystiolaeth pe bai defnyddio'r dystiolaeth honno'n golygu camddefnyddio'r broses.

B. Bydd torri Cod D yn gorfodi'r llys i wahardd y dystiolaeth adnabod oherwydd ei heffaith ragfarnus (prejudicial).

C. Gall torri Cod D arwain at lys yn penderfynu y dylid gwahardd y dystiolaeth pe bai defnyddio'r dystiolaeth honno'n cael effaith andwyol (adverse effect) ar degwch yr achos.

D. Ni fydd torri Cod D yn gorfodi'r llys i wahardd y dystiolaeth gan na fyddai defnyddio'r dystiolaeth honno'n cael effaith andwyol (adverse effect) ar degwch yr achos.

E. Bydd torri Cod D yn gorfodi'r llys i ddod i'r casgliad y dylid eithrio (exclude) y dystiolaeth a gorchymyn bod yn rhaid i'r heddlu ddatrys y camgymeriad hwn drwy gynnal gweithdrefn adnabod arall ar fideo yn unol â Chod D.

**Cwestiwn 17**

Mae dyn yn ymosod ar ddioddefwr mewn clwb nos, gan daro pen y dioddefwr yn dreisgar am yn ôl yn erbyn wal gan fwriadu achosi niwed corfforol difrifol iawn i'r dioddefwr. Mae'r dioddefwr wedi cael anaf difrifol ac mae'n mynd at y dyn sy'n gweithio ar ddrws y clwb nos i ofyn am help. Mae'r dyn yn credu bod y dioddefwr wedi meddwi ac yn ei thaflu hi allan o'r adeilad.

Yn fuan wedyn caiff y dioddefwr ei darganfod yn gorwedd ar y palmant a chaiff ei chludo i'r ysbyty. Mae ei chyflwr yn ddifrifol iawn oherwydd niwed enfawr i'r ymennydd, a ddigwyddodd oherwydd gweithredoedd y dyn ynghyd â pheth ddirywiad yn ei chyflwr tra'r oedd yn gorwedd ar y palmant. Mae hi'n cael ei rhoi ar beiriant cynnal bywyd sy'n cael ei ddiffodd pan ddaw'n amlwg ei bod wedi dioddef marwolaeth bôn yr ymennydd (brain stem death).

Mae'r dyn yn cael ei gyhuddo o lofruddiaeth.

**Pa ddatganiad sy'n egluro orau beth yw atebolrwydd (liability) posibl y dyn am lofruddiaeth?**

A. Ni ellir ei gael yn euog o lofruddiaeth gan fod gweithredoedd y dyn ar y drws wedi cyfrannu at farwolaeth y dioddefwr.

B. Ni ellir ei gael yn euog o lofruddiaeth gan nad oedd marwolaeth yn ganlyniad anochel (inevitable) ei weithredoedd.

C. Ni ellir ei gael yn euog o lofruddiaeth gan fod marwolaeth y dioddefwr yn ganlyniad diffodd y peiriant cynnal bywyd.

D. Gellir ei gael yn euog o lofruddiaeth gan ei fod yn gyd-droseddwr (accomplice) i weithredoedd y dyn ar y drws a arweiniodd at farwolaeth y dioddefwr.

E. Gellir ei gael yn euog o lofruddiaeth gan fod ei weithredoedd ef yn rheswm sylweddol a gweithredol am farwolaeth y dioddefwr.

**Cwestiwn 18**

Mae dyn yn gweld carafán mewn cae ac yn penderfynu ei rhoi ar dân. Nid yw'n ystyried a oes unrhyw un yn y garafán cyn iddo ei rhoi ar dân.

Fodd bynnag, mae menyw yn y garafán sy'n methu dianc oherwydd y mwg ac sy'n llosgi i farwolaeth pan mae'r garafán yn cael ei dinistrio gan y tân. Roedd y dyn wedi bwriadu dinistrio eiddo'n anghyfreithlon ond nid oedd yn bwriadu niweidio unrhyw un.

**Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau atebolrwydd (liability) y dyn o safbwynt dynladdiad drwy weithred anghyfreithlon (unlawful act manslaughter)?**

A. Nid yw'n euog gan nad oedd y weithred anghyfreithlon o ddinistrio'r garafán ynddi'i hun yn peryglu bywyd.

B. Nid yw'n euog gan nad oedd yn bwriadu peryglu bywyd rhywun wrth ddinistrio'r garafán.

C. Mae'n euog gan ei fod wedi ymddwyn gydag esgeuluster difrifol (gross negligence) o safbwynt niweidio rhywun a allai fod yn y garafán, wrth ei rhoi ar dân.

D. Mae'n euog gan ei fod wedi cyflawni gweithred anghyfreithlon a pheryglus sydd wedi lladd y fenyw.

E. Mae'n euog gan ei fod wedi ymddwyn yn ddi-hid (reckless) o safbwynt niweidio rhywun a allai fod yn y garafán wrth ei rhoi ar dân.

**Cwestiwn 19**

Roedd gŵr, gwraig a mam y wraig wedi prynu tŷ gyda'i gilydd 20 mlynedd yn ôl.

Roedd y weithred drosglwyddo (transfer deed) yn datgan eu bod yn dal yr eiddo fel cyd-denantiaid (joint tenants) o safbwynt cyfraith ac ecwiti.

Gwahanodd y gŵr a'r wraig fis yn ôl, a symudodd y gŵr allan o'r tŷ.

Lladdwyd y wraig mewn damwain car yr wythnos diwethaf. Ychydig ddiwrnodau cyn ei marwolaeth, roedd y wraig wedi gwneud ewyllys yn gadael ei holl eiddo i'w chariad newydd.

**Sut mae teitl y tŷ'n cael ei ddal erbyn hyn?**

A. Mae'r gŵr a mam y wraig yn gyd-denantiaid o safbwynt cyfraith ac yn denantiaid cydradd (tenants in common) o safbwynt ecwiti.

B. Mae'r gŵr, mam y wraig a'r cariad newydd yn gyd-denantiaid o safbwynt cyfraith ac yn denantiaid cydradd (tenants in common) o safbwynt ecwiti.

C. Mae mam y wraig a'r cariad newydd yn gyd-denantiaid o safbwynt cyfraith ac ecwiti.

D. Mae mam y wraig a'r gŵr yn gyd-denantiaid o safbwynt cyfraith ac ecwiti.

E. Mae mam y wraig a'r cariad newydd yn gyd-denantiaid o safbwynt cyfraith ac yn denantiaid cydradd (tenants in common) o safbwynt ecwiti.

**Cwestiwn 20**

Bu farw menyw gan adael ystad o ddau gyfrif banc ac un eiddo rhydd-ddaliadol (freehold). Roedd ei hewyllys yn rhannu'r ystad sy'n weddill yn gyfartal rhwng ei mab a'i merch.

Bum mlynedd yn ôl cafodd y fenyw a'i mab (a oedd yn 22 oed ar y pryd) ffrae ddifrifol a gwnaeth y mab adael cartref y teulu. Nid oes neb o'r teulu wedi ei weld ers hynny. Mae'r cynrychiolwyr personol wedi holi perthnasau eraill a ffrindiau i geisio canfod ble mae'r mab, ond wedi methu cael gafael arno.

Dri mis yn ôl, yn unol ag a.27 o Ddeddf Ymddiriedolwyr 1925, rhoddodd y cynrychiolwyr personol hysbysebion yn y London Gazette ac mewn papur newydd lleol. Nid yw'r cynrychiolwyr personol wedi cael unrhyw ymateb i'r hysbysiadau hyn oddi wrth fab y fenyw nac unrhyw un arall sy'n honni bod yn gredydwr i'r ystad. Maent yn bwriadu dosbarthu'r ystad weddilliol yn ei chyfanrwydd i ferch y fenyw a dim ond talu'r credydwyr y maen nhw'n gwybod amdanynt ar hyn o bryd.

**Pa un o'r datganiadau canlynol sy'n disgrifio orau amddiffyniad y cynrychiolwyr personol rhag hawliadau gan gredydwyr a buddiolwyr (beneficiaries) o ganlyniad i'r ymholiadau a wnaed a'r hysbysiadau a osodwyd o dan a.27 o Ddeddf Ymddiriedolwyr 1925?**

A. Bydd y cynrychiolwyr personol wedi eu hamddiffyn rhag hawliadau gan gredydwyr newydd a buddiolwyr anhysbys, ond nid rhag hawliad gan y mab.

B. Bydd y cynrychiolwyr personol wedi eu hamddiffyn rhag hawliadau gan gredydwyr newydd, ond nid rhag hawliadau gan fuddiolwyr anhysbys na'r mab.

C. Bydd y cynrychiolwyr personol wedi eu hamddiffyn rhag hawliadau gan gredydwyr newydd, buddiolwyr anhysbys a'r mab.

D. Ni fydd y cynrychiolwyr personol wedi eu hamddiffyn rhag hawliadau gan gredydwyr newydd, ond byddant wedi eu hamddiffyn rhag hawliadau gan fuddiolwyr anhysbys a'r mab.

E. Ni fydd y cynrychiolwyr personol wedi eu hamddiffyn rhag hawliadau gan gredydwyr newydd na buddiolwyr anhysbys, ond byddant wedi eu hamddiffyn rhag hawliad gan y mab.

**Cwestiwn 21**

Roedd brawd a chwaer yn berchen ar fflat lesddaliadol (leasehold) fel tenantiaid cydradd (tenants in common) mewn cyfrannau cyfartal. Bu farw'r chwaer fis diwethaf ac o dan delerau ei hewyllys bydd ei hystad gyfan yn cael ei rhoi yn ddiamod (absolutely) i'w merch sy'n oedolyn. Amcangyfrifir bod y fflat yn werth £200,000 gan fod fflat tebyg iawn yn yr un bloc wedi gwerthu am y pris hwnnw fis diwethaf. Bydd yn rhaid talu Treth Etifeddiant ar ystad y chwaer.

**Os yw gwerth amcangyfrifedig y fflat yn gywir, beth fydd gwerth hanner cyfran y chwaer at ddiben Treth Etifeddiant?**

A. £100,000 minws canran o ostyngiad i adlewyrchu'r ffaith bod y fflat wedi ei gyd-berchnogi pan fu farw'r chwaer.

B. £100,000 gan nad oes gostyngiad ar gael oherwydd y rheolau sy'n gysylltiedig ag eiddo rhwng brawd a chwaer.

C. £100,000 gan nad oes gostyngiad ar gael oherwydd y rheolau sy'n gysylltiedig ag eiddo rhwng mam a merch.

D. £100,000 gan nad oes gostyngiad ar gael oherwydd y rheolau sy'n gysylltiedig ag eiddo pan fydd mwy na dau berthynas agos yn gysylltiedig â pherchnogaeth eiddo.

E. £100,000 gan nad oes gostyngiad ar gael oherwydd mai fflat lesddaliadol yw hwn.

**Cwestiwn 22**

Bu farw dyn ar 4 Mai 2024. Gadawodd ei ystad gyfan i'w nai (nephew). Roedd yn ddyn di-briod ac nid oedd wedi gwneud unrhyw roddion oes (lifetime gifts). Roedd ei ystad yn cynnwys tŷ heb forgais gwerth £175,000 yr oedd wedi byw ynddo am fwy na 20 mlynedd, a chyfrifon banc a chymdeithas adeiladu gyda balansau gwerth £550,000. Roedd hefyd yn berchen ar dŷ gwerth £170,000 heb forgais a etifeddodd ar ôl ei fodryb ac sydd wedi cael ei rentu i denantiaid yn ystod y 30 mlynedd diwethaf. Roedd cyfanswm dyledion a chostau angladd y dyn yn £9,000.

Ym mlwyddyn dreth 2024/25 y band dim treth (nil rate) yw £325,000 a'r band dim treth ar gyfer prif breswylfa yw £175,000.

**Faint o Dreth Etifeddiant fydd yn daladwy ar ystad y dyn?**

A. £354,400

B. £224,400

C. £154,400

D. £152,000

E. £84,400

**Cwestiwn 23**

Roedd dyn wedi gwasgu glud cryf iawn (superglue) i mewn i yriant caled (hard drive) cyfrifiadur ei gydweithiwr. Bwriad y dyn oedd chwarae jôc drwy stopio'r cyfrifiadur rhag gweithio dros dro.

Roedd yn rhagweld y gallai ei weithredoedd achosi difrod i'r cyfrifiadur a'i bod hi'n afresymol iddo gymryd y risg hon, dan yr amgylchiadau yr oedd e'n ymwybodol ohonynt.

Nid oedd wedi rhagweld bod difrod bron yn gwbl sicr o ddigwydd o ganlyniad i'w weithredoedd. Mewn gwirionedd cafodd y cyfrifiadur ei ddifrodi i'r graddau lle nad oedd modd ei drwsio ac fe ddylai'r dyn fod wedi rhagweld bod hynny bron yn gwbl sicr. Roedd ei weithredoedd yn afresymol.

**A yw'r dyn yn euog o ddifrod troseddol?**

A. Nac ydy, gan nad oedd wedi bwriadu achosi'r difrod.

B. Nac ydy, gan nad oedd wedi rhagweld bod y difrod bron yn gwbl sicr o ddigwydd o ganlyniad i'w weithredoedd.

C. Nac ydy, gan fod y dyn ddim ond yn esgeulus o safbwynt y difrod.

D. Ydy, gan ei fod wedi rhagweld y risg o ddifrod ac roedd hi'n afresymol iddo gymryd y risg, dan yr amgylchiadau yr oedd e'n ymwybodol ohonynt.

E. Ydy, gan y dylai fod wedi rhagweld bod difrod bron yn gwbl sicr o ddigwydd o ganlyniad i'w weithredoedd a bod ei weithredoedd yn afresymol.

**Cwestiwn 24**

Mae cleient yn mynd i weld ei gyfreithiwr am fod to tŷ ei gymydog wedi mynd i gyflwr gwael (disrepair) yn ddiweddar ac mae eisiau gweld a all wneud unrhyw beth am hyn.

Mae e'n dangos gweithred (deed) i'w gyfreithiwr lle'r oedd y cymydog wedi rhoi cyfamod (covenant) ynddo er budd tŷ'r cleient: "i beidio â gadael i gyflwr y to fynd yn wael."

**Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau pam mae'r cleient yn debygol o allu siwio'r cymydog o dan y cyfamod hwn?**

A. Gan y bydd eithriad (exception) y cynllun adeiladu yn berthnasol.

B. Gan y bydd athrawiaeth cyd-fudd a chyd-faich (doctrine of mutual benefit and burden) yn berthnasol.

C. Gan mai cyfamod cadarnhaol (positive) ydyw.

D. Gan mai cyfamod cyfyngiadol (restrictive) ydyw.

E. Gan mai'r cymydog oedd y parti gwreiddiol yn y weithred.

**Cwestiwn 25**

Bu farw ewyllysiwr (testator) gan adael ewyllys a nododd ei fod yn rhoi ei ystad gyfan mewn cyfrannau cyfartal i'w fab a'i ferch sy'n oedolion.

Roedd asedau'r ystad yn cynnwys cyfrannau mewn cwmni ar Gyfnewidfa Stoc Llundain a oedd â gwerth profiant o £100,000. Trosglwyddwyd hanner y cyfrannau i'r mab a throsglwyddwyd yr hanner arall i'r ferch. Ar ddyddiad trosglwyddo'r cyfrannau, cyfanswm gwerth y cyfrannau oedd £150,000.

Fis yn ddiweddarach, gwerthodd y ferch ei holl gyfrannau, a'r enillion gwerthu net oedd £85,000. Ddau fis yn ddiweddarach, gwerthodd y mab ei holl gyfrannau a'r enillion gwerthu net oedd £45,000. Nid yw'r ysgutor (executor) wedi cwblhau gweinyddu'r ystad eto.

**Pa un o'r datganiadau canlynol sy'n disgrifio orau'r sefyllfa o safbwynt Treth Enillion Cyfalaf (Capital Gains Tax) ar y cyfrannau a werthwyd yn ystod y cyfnod gweinyddu?**

A. Bydd y ferch yn gwneud enillion, bydd y mab yn gwneud colled ac ni fydd yr ysgutor yn gwneud colled nac enillion.

B. Bydd y ferch yn gwneud enillion; ni fydd yr ysgutor na'r mab yn gwneud colled nac enillion.

C. Bydd yr ysgutor a'r ferch yn gwneud enillion; bydd y mab yn gwneud colled.

D. Bydd yr ysgutor yn gwneud enillion; ni fydd y ferch na'r mab yn gwneud colled nac enillion.

E. Bydd yr ysgutor a'r ferch yn gwneud enillion, ni fydd y mab yn gwneud colled nac enillion.

**Cwestiwn 26**

Bu farw menyw. Rai diwrnodau ar ôl dod o hyd i'w chorff, aeth ei gŵr i dafarn a mynd yn feddw iawn. Cyfaddefodd wrth ffrind ei fod wedi lladd ei wraig am ei fod yn genfigennus o'i pherthynas â dyn arall. Clywodd rheolwr y bar y sgwrs hon.

Rhoddodd ffrind y gŵr a'r rheolwr ddatganiadau i'r heddlu a oedd yn rhoi manylion cyfaddefiad y gŵr. Mae'r gŵr wedi cael ei arestio ar amheuaeth o lofruddiaeth, ac wedi cael ei gyfweld dan rybudd (under caution). Bryd hynny gwadodd (deny) ei fod wedi lladd ei wraig, a gwadodd wneud y cyfaddefiad i'w ffrind.

**A fyddai cyfaddefiad y gŵr wrth ei ffrind yn y bar yn dderbyniol fel eithriad i'r rheol yn erbyn tystiolaeth achlust (hearsay evidence)?**

A. Na fyddai, gan fod y cyfaddefiad wedi cael ei wneud y tu allan i'r treial.

B. Na fyddai, oherwydd na chafodd y cyfaddefiad ei gadarnhau gan y gŵr yn ei gyfweliad dan rybudd.

C. Byddai, gan fod mwy nag un person yn gallu cadarnhau'r cyfaddefiad.

D. Byddai, gan mai cyfaddefiad i drosedd yw hyn.

E. Na fyddai, gan fod y gŵr yn feddw pan wnaeth y cyfaddefiad.

**Cwestiwn 27**

Mae cwmni o gyfreithwyr yn gweithredu ar ran cleient sy'n gwerthu ei eiddo ac yn prynu eiddo newydd. Ar adeg cyfnewid contractau ar gyfer y gwerthiant, mae'r cwmni'n cael blaendal o £25,000, a hynny i'w ddal fel rhanddeiliad.

**Pa bâr o gofnodion dwbl sy'n dangos y ffordd orau o gofnodi derbyn y blaendal yng nghofnodion cyfrifo'r cwmni?**

A. Credydu taflen arian cyfrif y cleient
Debydu cyd-gyfriflyfr y rhanddeiliaid (joint stakeholder ledger)

B. Credydu taflen arian cyfrif y busnes
Debydu cyd-gyfriflyfr y rhanddeiliaid (joint stakeholder ledger)

C. Credydu cyfriflyfr y cleient yng nghyfrif y cleient
Debydu cyd-gyfriflyfr y rhanddeiliaid (joint stakeholder ledger)

D. Credydu cyd-gyfriflyfr y rhanddeiliaid (joint stakeholder ledger)
Debydu taflen arian cyfrif y cleient

E. Credydu taflen arian cyfrif y cleient
Debydu cyfriflyfr y cleient yng nghyfrif y cleient

**Cwestiwn 28**

Mae menyw wedi cysylltu â chyfreithiwr i ofyn iddo gynrychioli ei thad drwy fod yn bresennol gydag ef yng ngorsaf yr heddlu. Mae'r tad wedi cael ei arestio ar amheuaeth o ymgais i lofruddio ac mae yn nalfa gorsaf yr heddlu.

Mae'r cyfreithiwr yn gwbl ymwybodol o amgylchiadau'r honiad gan ei fod wedi cynrychioli brawd y fenyw ychydig ddyddiau'n ôl pan gafodd y brawd ei arestio am yr un drosedd. Erbyn hyn mae'r brawd wedi'i gyhuddo (charged) o'r drosedd. Bydd y cwmni'n gwneud y gwiriadau arferol o safbwynt gwrthdaro buddiannau (conflict of interests).

**A yw Cod Ymddygiad SRA ar gyfer Cyfreithwyr, Cyfreithwyr Cofrestredig Ewrop (RELs) a Chyfreithwyr Cofrestredig Tramor (RFLs) yn caniatáu i'r cyfreithiwr gynrychioli tad y fenyw yng ngorsaf yr heddlu?**

A. Nac ydy. Er bod y cyfreithiwr yn gallu derbyn cyfarwyddiadau gan drydydd parti, ni all dderbyn cyfarwyddiadau gan aelod agos o deulu'r cleient arfaethedig.

B. Nac ydy. Ni all y cyfreithiwr dderbyn cyfarwyddiadau gan drydydd parti dan unrhyw amgylchiadau.

C. Ydy. Gall y cyfreithiwr dderbyn cyfarwyddiadau gan y fenyw os yw wedi'i fodloni bod gan y fenyw'r awdurdod i roi cyfarwyddiadau ac nad oes gwrthdaro buddiannau na risg o wrthdaro.

D. Ydy, gall y cyfreithiwr dderbyn cyfarwyddiadau gan y fenyw os yw wedi'i fodloni bod gan y fenyw awdurdod i roi cyfarwyddiadau. Ni all gwrthdaro buddiannau byth godi rhwng aelodau agos o'r teulu a does dim angen aros am ganlyniad y gwiriad gwrthdaro buddiannau.

E. Ydy, gall y cyfreithiwr dderbyn cyfarwyddiadau gan y fenyw os yw wedi'i fodloni bod gan y fenyw awdurdod i roi cyfarwyddiadau. Ni fydd gwrthdaro buddiannau yn codi pan fydd aelodau agos o'r teulu yn gysylltiedig â'r un drosedd a does dim angen aros am ganlyniad y gwiriad gwrthdaro buddiannau.

**Cwestiwn 29**

Bu farw menyw a chafodd ei goroesi gan (survived by) ei gŵr a'i mab sy'n 30 oed. Dan delerau ei hewyllys, creodd y fenyw gronfa ymddiriedolaeth (trust fund) o'i hystad weddilliol yn unol â'r telerau canlynol:

"talu'r incwm o'm hystad weddillol i'm gŵr am weddill ei oes ac ar ôl ei farwolaeth RHODDAF fy ystad weddilliol i'm mab os bydd yn goroesi fy ngŵr ac yn troi'n 25 oed, ond os na fydd yn dal yn fyw yna i'm chwaer yn ddiamod (absolutely)."

Mae'r gŵr yn trafod y posibilrwydd o ddod â'r ymddiriedolaeth i ben gyda'r ymddiriedolwyr (trustees).

**Gan bwy y mae angen cydsyniad i ddod â'r ymddiriedolaeth i ben nawr?**

A. Y gŵr a'r mab.

B. Y gŵr, y mab a'r chwaer.

C. Y gŵr a'r chwaer.

D. Y chwaer.

E. Y mab a'r chwaer.

**Cwestiwn 30**

Bu farw menyw chwe mis yn ôl gan adael ystad o £60,000 i'w rhannu'n gyfartal rhwng ei thri phlentyn pan fyddant yn 21 oed. Mae ei mab yn 24 oed, ac mae ei dwy ferch yn 19 oed a 14 oed. Mae ei mab ar fin cael ei gyfran ef o'r ystad. Mae'r ymddiriedolwyr (trustees) wedi cael cais i godi cyfalaf er mwyn helpu i sefydlu busnes arlwyo newydd y ferch hŷn. Nid yw ewyllys y fenyw yn ymestyn pwerau'r ymddiriedolwyr i ddwyn hyn ymlaen (powers of advancement).

**Beth yw'r uchafswm y gall yr ymddiriedolwyr ei roi yn unol â'r cais?**

A. £0

B. £10,000

C. £20,000

D. £30,000

E. £40,000

**Cwestiwn 31**

Mae menyw yn cario gliniadur wrth gerdded adref gyda'i merch. Mae dyn yn dod tuag atynt, yn pwyntio at y ferch ac yn sgrechian ar y fenyw: "Rho'r gliniadur i mi neu mi dorraf wddf y ferch." Ei fwriad yw codi ofn ar y ddwy a gwneud iddynt feddwl y bydd yn defnyddio'r trais mae'n ei fygwth, ac yna dwyn y gliniadur. Mae'r fenyw'n taflu'r gliniadur at y dyn ac mae'n ei gymryd, ac mae'r fenyw a'i merch yn rhedeg i ffwrdd. Mae'r dyn yn cael ei ddal yn ddiweddarach a'i gyhuddo (charged) o ladrad.

**A yw'r dyn yn euog o ladrad?**

A. Nac ydy, gan nad yw wedi defnyddio grym gwirioneddol ar unrhyw un.

B. Nac ydy, gan fod ei fygythiadau wedi'u cyfeirio at y ferch ac nid at y fenyw a oedd yn cario'r gliniadur.

C. Ydy, gan ei fod wedi dwyn y gliniadur, ac yn syth cyn hynny, ac er mwyn gwneud hynny, mae wedi achosi aflonyddwch, braw neu drallod i'r fenyw a'i merch.

D. Ydy, gan ei fod wedi dwyn y gliniadur, ac yn syth cyn hynny, ac er mwyn gwneud hynny, mae wedi peri i'r ferch ofni y bydd yn dioddef grym yn y fan a'r lle.

E. Nac ydy, gan nad oedd yn cario arf tanio nac arf ymosodol.

**Cwestiwn 32**

Mae dyn yn berchen ar rydd-ddaliad (freehold) adeilad masnachol ac mae'n bwriadu rhoi les yr adeilad i gwmni yswiriant.

Mae'r dyn wedi'i gofrestru ar gyfer Treth ar Werth (TAW) a, chyn rhoi'r les, mae'n dewis opsiwn i drethu'r adeilad.

Wrth gynnal ei fusnes, mae'r cwmni yswiriant dim ond yn creu cyflenwadau sydd wedi'u heithrio at ddiben TAW.

**Yn sgil dewis y dyn ynghylch trethu'r adeilad, beth fydd yr effaith ar y rhent sy'n daladwy i'r dyn gan y cwmni yswiriant?**

A. Ni fydd y rhent sy'n daladwy yn destun TAW.

B. Bydd y rhent sy'n daladwy yn destun TAW o 0%.

C. Bydd y rhent sy'n daladwy yn destun TAW o 20%, a fydd yn adferadwy (recoverable) gan y cwmni yswiriant.

D. Bydd y rhent sy'n daladwy yn destun TAW o 20%, a fydd yn anadferadwy (irrecoverable) gan y cwmni yswiriant.

E. Bydd disgownt o 20% ar y rhent sy'n daladwy yn nwylo'r cwmni yswiriant.

**Cwestiwn 33**

Roedd dyn yn yfed mewn bar cyhoeddus ac aeth yn feddw iawn. Bu'n dadlau gyda chwsmer arall ac yn sydyn trawodd ef y cwsmer arall yn ei wyneb gyda'i wydryn gwag gan achosi anaf a oedd yn gyfystyr â niwed corfforol difrifol (grievous bodily harm). Roedd y dyn mor feddw fel na wyddai beth yr oedd yn ei wneud. Roedd y dyn wedi meddwi o'i wirfodd (voluntarily). Arestiodd yr heddlu'r dyn. Mae wedi cael ei gyhuddo (charged) o glwyfo (wounding) gyda'r bwriad o achosi niwed corfforol difrifol.

**Pa un o'r canlynol yw'r disgrifiad gorau o atebolrwydd (liability) y dyn am glwyfo gyda'r bwriad o achosi niwed corfforol difrifol?**

A. Nid yw'n euog gan ei fod mor feddw fel nad oedd wedi ffurfio'r bwriad angenrheidiol ar gyfer y drosedd.

B. Nid yw'n euog gan fod meddwdod yn rhoi esgus rhesymol am yr ymosodiad.

C. Mae'n euog gan iddo feddwi o'i wirfodd a bod hynny'n ddigon di-hid (reckless) i fodloni'r gofyniad mens rea ar gyfer y drosedd hon.

D. Mae'n euog gan fod achosi niwed corfforol difrifol yn fwriadol yn drosedd â bwriad penodol (specific intent) ac nid yw meddwdod yn amddiffyniad yn achos trosedd â bwriad penodol.

E. Mae'n euog gan fod achosi niwed corfforol difrifol yn fwriadol yn drosedd â bwriad sylfaenol (basic intent) ac nid yw meddwdod yn amddiffyniad yn achos trosedd â bwriad sylfaenol.

**Cwestiwn 34**

Roedd rhydd-ddeiliad (freeholder) ('y Landlord') wedi rhoi prif les (headlease) deng-mlynedd i denant.

Ar ôl blwyddyn, rhoddodd y tenant, gyda chaniatâd y Landlord, is-les (sublease) am gyfnod o bum mlynedd i is-denant.

Ddwy flynedd yn ddiweddarach, ildiodd (surrender) y tenant ei brif les i'r Landlord.

**Pa un o'r datganiadau canlynol yw'r disgrifiad gorau o sefyllfa'r is-denant?**

A. Mae is-les yr is-denant yn dod i ben (extinguished).

B. Mae'r is-denant yn dod yn denant uniongyrchol i'r Landlord ar delerau'r prif les.

C. Mae'r is-denant yn dod yn denant uniongyrchol i'r Landlord ar delerau'r is-les.

D. Mae'r is-denant yn dod yn denant uniongyrchol i'r Landlord ar delerau les gor-redol (overriding).

E. Mae is-les yr is-denant yn cael ei fforffedu (forfeited).

**Cwestiwn 35**

Mae tri dyn a menyw yn mynd i mewn i swyddfa lle mae'r fenyw yn gweithio rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae'r grŵp yn mynd i mewn i'r swyddfa am 10pm ar nos Sadwrn i gael parti. Mae'r fenyw'n defnyddio ei hallweddi/goriadau i'w gadael nhw i mewn.

Ar ôl hanner awr maent yn diflasu ac felly mae un o'r grŵp yn awgrymu eu bod yn edrych o amgylch y swyddfa i weld a oes unrhyw alcohol y gallant ei ddwyn. Tra eu bod yn y swyddfa mae'r grŵp yn chwilio drwy'r droriau ac yn dod o hyd i wisgi ac yn ei yfed. Maent hefyd yn dod o hyd i £300 ac yn ei ddwyn.

**Pa un o'r canlynol yw'r disgrifiad gorau ynghylch a ydynt yn euog o fwrgleriaeth?**

A. Maent i gyd yn ddieuog gan nad ydynt wedi mynd i mewn fel tresmaswyr gan fod y fenyw'n gweithio yn y swyddfa ac mae ganddi ganiatâd i fynd i mewn.

B. Dim ond y dynion sy'n euog gan nad yw'r fenyw yn dresmaswr am ei bod yn gweithio yn y swyddfa ac mae ganddi ganiatâd i fynd i mewn.

C. Maent i gyd yn euog gan eu bod wedi mynd i mewn fel tresmaswyr ac yna wedi dwyn ar ôl mynd i mewn i'r swyddfa.

D. Maent i gyd yn ddieuog gan nad ydynt wedi defnyddio grym i fynd i mewn i'r swyddfa.

E. Maent i gyd yn euog gan fod bwriad i ddwyn wedi'i ffurfio ar adeg mynd i mewn i'r swyddfa.

**Cwestiwn 36**

Mae cyfreithiwr yn gweithredu ar ran unigolyn sy'n prynu eiddo rhydd-ddaliadol (freehold) sydd â theitl cofrestredig.

Mae cyfreithiwr y gwerthwr yn dweud wrth gyfreithiwr y prynwr bod gan yr eiddo fudd hawl tramwy cyfreithiol ar droed (legal right of way on foot) ar draws eiddo rhydd-ddaliadol y cymydog, er mwyn cyrraedd ffordd.

**Am beth fydd cyfreithiwr y prynwr yn chwilio wrth archwilio copi swyddogol y Gofrestrfa Tir o deitl yr eiddo er mwyn cadarnhau bod yr hawl tramwy wedi'i chofrestru'n briodol?**

A. Cofnod sy'n cyfeirio at hawddfraint (easement) yn y Gofrestr Eiddo.

B. Cofnod sy'n cyfeirio at hawddfraint (easement) yn y Gofrestr Perchenogaeth (Proprietorship).

C. Cofnod sy'n cyfeirio at hawddfraint (easement) yn y Gofrestr Arwystlon (Charges Register).

D. Cyfyngiad ar drafodion (restriction on dealings) yn y Gofrestr Perchenogaeth (Proprietorship).

E. Cofnod yn cyfeirio at gyfamod cyfyngiadol (restrictive covenant) yn y Gofrestr Arwystlon (Charges Register).

**Cwestiwn 37**

Mae rhydd-ddeiliad (freeholder) (‘y Landlord’) wedi rhoi les fasnachol i denant ar ei eiddo.

Mae’r les yn nodi mai dim ond at ddiben manwerthu y gellir defnyddio’r eiddo.

Siop lyfrau yw’r tenant ac mae’n gofyn am gydsyniad (consent) y Landlord i aseinio’r les i archfarchnad. Mae’r siop lyfrau yn fasnachwr annibynnol sy’n ei chael hi’n anodd talu’r rhent. Mae’r archfarchnad yn cael ei rhedeg gan gadwyn genedlaethol sy’n broffidiol iawn.

Mae’r Landlord yn dymuno gwrthod cydsyniad ar gyfer yr aseiniad gan ei fod yn rhedeg archfarchnad arall gyferbyn â’r eiddo ac mae’n poeni y bydd yr aseinai (assignee) yn dwyn busnes oddi wrth ei fusnes ei hun.

Dyma eiriad perthnasol y cyfamod trosglwyddiad (alienation covenant) yn y les:

“Ni fydd y Tenant yn aseinio tanosodiad (underlet) na phridio (charge) yr Eiddo heb gael cydsyniad ysgrifenedig y Landlord ymlaen llaw.”

**A yw’n gyfreithlon i’r Landlord wrthod rhoi cydsyniad ar gyfer yr aseiniad ar sail busnes yr aseinai?**

A. Ydy, gan nad yw archfarchnad yn gymwys fel diben manwerthu.

B. Ydy, gan nad oes yn rhaid i’r Landlord weithredu’n rhesymol wrth wrthod cydsyniad.

C. Ydy, gan fod cystadleuaeth gan yr aseinai â busnes y Landlord yn sail dros wrthod cydsyniad yn rhesymol.

D. Nac ydy, oherwydd nid yw cystadleuaeth gan yr aseinai â busnes y Landlord yn sail dros wrthod cydsyniad yn rhesymol.

E. Nac ydy, gan fod yr archfarchnad mewn sefyllfa ariannol well na’r siop lyfrau ac ni ellir gwrthod cydsyniad os yw’r aseinai yn darparu cyfamod cryfach.

**Cwestiwn 38**

Mae cyfreithiwr yn gweithredu ar ran unigolyn sy’n gwerthu eiddo rhydd-ddaliadol (freehold) sydd â theitl nad yw wedi’i gofrestru.

Mae’r cyfreithiwr yn paratoi i ddiddwytho (deduce) teitl yr eiddo ar gyfer cyfreithiwr sy’n gweithredu ar ran y prynwr. Mae’n archwilio’r gweithredoedd (deeds) a’r dogfennau sy’n ymwneud â’r eiddo.

**Pa un o’r canlynol sydd orau fel gwreiddyn (root) da i’r teitl wrth ddiddwytho teitl yr eiddo?**

A. Trawsgludiad (conveyance) yr eiddo, dyddiedig 10 Mawrth 1984.

B. Cydsyniad (assent) yr eiddo, dyddiedig 30 Ebrill 1988.

C. Caniatâd cynllunio ar gyfer yr eiddo, dyddiedig 15 Mai 2015.

D. Ewyllys sy’n cymynroddi (devise) yr eiddo, dyddiedig 20 Mai 1984.

E. Tystysgrif chwiliad pridiannau tir (land charges), dyddiedig 8 Mawrth 1984.

**Cwestiwn 39**

Mae cyfreithiwr yn ychwanegu at ei incwm drwy fflatiau prynu-i-osod. Mae'r cyfreithiwr yn penderfynu gwerthu un o'r fflatiau a defnyddio'r cyfalaf ar gyfer buddsoddiad arall. Mae un o gleientiaid y cyfreithiwr yn cynnig y pris llawn a ofynnir am y fflat ac mae'r cyfreithiwr yn derbyn cynnig ei gleient.

Gan wybod yn iawn mai'r cyfreithiwr yw'r gwerthwr, mae'r cleient yn cyfarwyddo'r un cyfreithiwr yn ysgrifenedig i weithredu fel cyfreithiwr ar ei ran yn y trafodiad. Mae'r cyfreithiwr yn derbyn y cyfarwyddyd ac yn paratoi'r holl ddogfennau. Cwblheir y gwaith trosglwyddo heb gymhlethdodau.

**A wnaeth y cyfreithiwr weithredu yn unol â Safonau a Rheoliadau SRA?**

A. Do, oherwydd gall cyfreithiwr weithredu pan fydd gwrthdaro o ran ei fuddiannau ei hun os yw wedi cael caniatâd ysgrifenedig gan y cleient.

B. Do, oherwydd gall cyfreithiwr weithredu pan fydd gwrthdaro o ran ei fuddiannau ei hun os yw wedi'i fodloni bod hynny er lles pennaf ei gleient.

C. Do, oherwydd gall cyfreithiwr weithredu pan fydd gwrthdaro o ran ei fuddiannau ei hun os oes gan y cyfreithiwr a'r cleient fuddiant cyffredin sylweddol.

D. Naddo, oherwydd ni all cyfreithiwr weithredu pan fydd gwrthdaro o ran ei fuddiannau ei hun oni bai bod y cyfreithiwr a'r cleient yn cystadlu tuag at yr un amcan.

E. Naddo, oherwydd ni all cyfreithiwr weithredu pan fydd gwrthdaro o ran ei fuddiannau ei hun neu risg sylweddol y bydd gwrthdaro o ran ei fuddiannau ei hun.

**Cwestiwn 40**

Mae dyn wedi cael ei arestio ar amheuaeth o ymosodiad cyffredin (common assault). Mae'n chwaraewr pêl-droed proffesiynol sy'n ennill £180,000 y flwyddyn. Honnir bod y dyn wedi taro ffotograffydd a oedd yn ceisio tynnu llun ohono tra oedd yn cael diod gyda menyw mewn bar. Nid yw'r dyn erioed wedi mynd i helynt gyda'r heddlu o'r blaen ac mae wedi gofyn am gael ei gynrychioli gan y cyfreithiwr ar ddyletswydd (duty solicitor) tra ei fod dan rybudd (under caution) yng ngorsaf yr heddlu.

**A fydd gan y dyn hawl i gynrychiolaeth gyfreithiol drwy arian cyhoeddus wrth amddiffyn ei achos?**

A. Ni fydd y dyn yn gymwys i gael cynrychiolaeth gyfreithiol drwy arian cyhoeddus gan y cyfreithiwr ar ddyletswydd yng ngorsaf yr heddlu gan y bydd yn methu'r prawf modd (means test).

B. Bydd y dyn yn gymwys i gael cynrychiolaeth gyfreithiol drwy arian cyhoeddus gan y cyfreithiwr ar ddyletswydd yng ngorsaf yr heddlu ac ym mhob gwrandawiad hyd at, ac yn cynnwys, y ddedfryd (sentence).

C. Bydd y dyn yn gymwys i gael cynrychiolaeth gyfreithiol drwy arian cyhoeddus gan y cyfreithiwr ar ddyletswydd yng ngorsaf yr heddlu, sydd wedi'i gyfyngu i gyngor dros y ffôn yn unig.

D. Bydd y dyn yn gymwys i gael cynrychiolaeth gyfreithiol drwy arian cyhoeddus gan y cyfreithiwr ar ddyletswydd yng ngorsaf yr heddlu. Bydd hefyd yn gallu cael gorchymyn cynrychiolaeth (representation order) yn y Llys Ynadon ar yr amod ei fod yn pasio'r prawf budd cyfiawnder (interests of justice), gan nad oes prawf modd (means test) yn y Llys Ynadon.

E. Bydd y dyn yn gymwys i gael cynrychiolaeth gyfreithiol drwy arian cyhoeddus gan y cyfreithiwr ar ddyletswydd yng ngorsaf yr heddlu. Ni fydd yn gallu cael gorchymyn cynrychiolaeth (representation order) yn y Llys Ynadon, oherwydd hyd yn oed os bydd yn pasio'r prawf budd cyfiawnder (interests of justice), bydd yn methu'r prawf modd (means test) sy'n berthnasol yn y Llys Ynadon.

**Cwestiwn 41**

Bu farw dyn ddeng mis yn ôl â'i ddomisil (domiciled in) yng Nghymru a Lloegr. Rhoddwyd grant cynrychiolaeth (grant of representation) ar gyfer ei ystad saith mis yn ôl. Yn ei ewyllys, gadawodd y dyn ei ystad gyfan i'w hoff elusen. Mae gweddw (widow) y dyn yn ystyried dwyn hawliad yn erbyn ei ystad o dan y Ddeddf Etifeddiaeth (Darpariaeth i Deulu a Dibynyddion) 1975 ('y Ddeddf'). Nid oes unrhyw amgylchiadau lle byddai llys yn rhoi caniatâd i gyflwyno cais hwyr o dan y Ddeddf.

**Pa un o'r datganiadau canlynol yw'r disgrifiad gorau o'r sefyllfa o ran gallu'r weddw i ddwyn hawliad o dan y Ddeddf?**

A. Mae'r weddw yn gallu dwyn hawliad oherwydd rhoddwyd y grant cynrychiolaeth lai na dwy flynedd yn ôl.

B. Mae'r weddw yn gallu dwyn hawliad oherwydd rhoddwyd y grant cynrychiolaeth lai na chwe mis ar ôl dyddiad y farwolaeth.

C. Mae'r weddw yn gallu dwyn hawliad oherwydd bu farw'r dyn lai na dwy flynedd yn ôl.

D. Ni all y weddw ddwyn hawliad oherwydd bu farw'r dyn dros chwe mis yn ôl.

E. Ni all y weddw ddwyn hawliad oherwydd rhoddwyd y grant cynrychiolaeth dros chwe mis ôl.

**Cwestiwn 42**

Roedd menyw yn teithio ar drên yn hwyr gyda'r nos pan ddaeth dyn tuag ati gyda chyllell fawr yn ei law. Rhedodd y fenyw i ffwrdd a chwympo/syrthio, gan anafu ei phen-glin. Doedd y dyn ddim wedi bwriadu achosi anaf i'r fenyw ac nid oedd wedi sylweddoli bod ei weithredoedd yn creu risg o anaf. Er hynny, roedd y dyn yn sylweddoli bod ei weithredoedd yn creu risg o godi ofn ar y fenyw y byddai hithau'n dioddef grym anghyfreithlon uniongyrchol (immediate unlawful force).

**Ydy'r dyn yn euog o ymosodiad sy'n achosi gwir niwed corfforol (actual bodily harm)?**

A. Nac ydy, gan nad oedd wedi sylweddoli bod ei weithredoedd yn creu risg o anaf.

B. Nac ydy, gan nad oedd yn bwriadu achosi anaf.

C. Nac ydy, gan nad oedd anaf yn ganlyniad bron yn gwbl sicr i'w weithredoedd.

D. Ydy, gan ei fod wedi sylweddoli bod ei weithredoedd yn creu risg o godi ofn ar y fenyw y byddai hithau'n dioddef grym anghyfreithlon uniongyrchol, ac achoswyd anaf.

E. Ydy, gan y byddai person rhesymol wedi sylweddoli bod risg o anaf, ac achoswyd anaf.

**Cwestiwn 43**

O dan delerau ewyllys dyn, rhoddir ei ystad gyfan i'w ferch. Cafodd y dyn a'i ferch ffrae ddifrifol a phenderfynodd ef nad oedd bellach am iddi fod yn fuddiolwr (beneficiary) i'w ewyllys. Rhwygodd ei ewyllys wreiddiol yn bedwar darn.

Mae'r dyn a'i ferch bellach wedi cymodi (reconcile) ac mae'r dyn yn difaru ei benderfyniad i rwygo ei ewyllys. Mae'n dymuno i'w ferch etifeddu ei ystad gyfan.

**Ydy ewyllys y dyn yn ddilys?**

A. Nac ydy, gan fod yr ewyllys wedi'i diddymu (revoked) wrth ei dinistrio.

B. Ydy, gan mai ei ferch yw'r buddiolwr a enwir yn yr ewyllys ac mae'r dyn yn bwriadu iddi etifeddu ei ystad gyfan.

C. Nac ydy, gan fod yn rhaid darllen yr ewyllys yn ei chyfanrwydd ac nid yw hyn bellach yn bosibl.

D. Ydy, gan fod yn rhaid diddymu ewyllys drwy gymal diddymu (revocation clause) mewn ewyllys newydd a weithredir yn unol ag a.9 o Ddeddf Ewyllysiau 1837.

E. Ydy, gan y bydd athrawiaeth diddymu perthynas dibynnol (doctrine of dependent relative revocation) yn berthnasol.

**Cwestiwn 44**

Roedd tenant wedi cael les i adeilad cyfan gan rydd-ddeiliad (freeholder) adeilad masnachol ('y Landlord').

Mae'r tenant yn poeni nad yw'r adeilad yn elwa o ddigon o olau naturiol ac mae'n dymuno creu dau agoriad newydd yn wal allanol yr adeilad ar gyfer ffenestri.

Mae'r tenant yn gofyn am gydsyniad y Landlord i wneud y newidiadau hyn.

Dyma'r cyfamod newidiadau yn y les:

"Ni chaiff y Tenant wneud newidiadau i'r Adeilad ac eithrio newidiadau anstrwythurol."

**A all y Landlord wrthod cydsyniad ar gyfer newidiadau arfaethedig y tenant heb roi rhesymau?**

A. Gall, gan fod y Landlord yn dal i fod yn berchen ar y waliau allanol.

B. Gall, gan fod gwaharddiad absoliwt yn erbyn newidiadau strwythurol.

C. Na all, gan fod amod ymhlyg (implied proviso) ym mhob gwaharddiad absoliwt na ddylai'r Landlord wrthod yn afresymol roi cydsyniad i wneud unrhyw newid.

D. Na all, gan fod amod ymhlyg (implied proviso) mewn gwaharddiadau absoliwt na ddylai'r Landlord wrthod yn afresymol roi cydsyniad i wneud newidiadau strwythurol.

E. Na all, gan fod y newidiadau arfaethedig yn rhai anstrwythurol.

**Cwestiwn 45**

Mae cwmni o gyfreithiwr yn gweithredu ar ran ysgutorion ewyllys. Bydd y gwaith o weinyddu'r ystad yn cael ei gwblhau maes o law ac mae'r ysgutorion wedi gofyn i'r cwmni dalu'r cymynroddion (legacies) sy'n ddyledus o dan yr ewyllys.

Fel mater ar wahân, mae'r cwmni hefyd yn gweithredu ar ran un o fuddiolwyr (beneficiaries) yr ewyllys mewn cysylltiad â phrynu eiddo. Mae gan y buddiolwr hawl i gymynrodd o £20,000 o'r ewyllys. Mae'r buddiolwr yn rhoi cyfarwyddiadau ysgrifenedig i'r cwmni i ddefnyddio'r gymynrodd o £20,000 i ad-dalu'r £2,000 y mae'r cwmni eisoes wedi'i godi mewn ffioedd syrfewyr a chwiliadau (y mae'r cwmni wedi bilio'r buddiolwr amdanynt), a chadw'r balans o £18,000 i'w ddefnyddio fel rhan o'r pris prynu.

**Pa un o'r datganiadau canlynol yw'r disgrifiad gorau o'r camau y dylai'r cwmni eu cymryd?**

A. Ni all y cwmni drosglwyddo'r arian o gofnod cyfrif cleient (client account ledger) yr ysgutorion i gofnod cyfrif cleient y buddiolwr. Dylai'r cwmni anfon siec am £20,000 at y buddiolwr.

B. Gall y cwmni drosglwyddo £2,000 o gofnod cyfrif cleient (client account ledger) yr ysgutorion i gyfrif banc busnes y cwmni ac fe ddylai wedyn anfon siec am £18,000 at y buddiolwr.

C. Gall y cwmni drosglwyddo £2,000 o gofnod cyfrif cleient (client account ledger) yr ysgutorion i gyfrif banc busnes y cwmni ac fe ddylai wedyn drosglwyddo £18,000 i gofnod cyfrif rhanddeiliaid y buddiolwr.

D. Gall y cwmni drosglwyddo £20,000 o gofnod cyfrif cleient (client account ledger) yr ysgutorion i gofnod cyfrif cleient y buddiolwr ac fe ddylai wedyn drosglwyddo £2,000 i gyfrif banc busnes y cwmni.

E. Gall y cwmni drosglwyddo £20,000 o gofnod cyfrif cleient (client account ledger) yr ysgutorion i gofnod cyfrif cleient y buddiolwr. Ni ddylai'r cwmni drosglwyddo £2,000 i gyfrif banc busnes y cwmni nes bod y broses o brynu'r eiddo wedi'i chwblhau.

**Cwestiwn 46**

Mae dyn yn bwriadu creu ymddiriedolaeth er budd ei ferch yn ystod ei bywyd hi ond yn y pen draw mae ef am i'r gronfa ymddiriedolaeth drosglwyddo i'w ŵyr (grandson).

Mae'r dyn yn trosglwyddo'r gronfa ymddiriedolaeth i ymddiriedolwyr, i'w dal mewn ymddiriedolaeth i'w ferch fel y tenant am oes (life tenant) a'i ŵyr fel y gweddilliadwr (remainderman), ar yr amod bod yr ŵyr yn cymhwyso fel cyfreithiwr yng Nghymru a Lloegr.

Ar ôl i'r ymddiriedolaeth gael ei chreu, mae'r ferch a'r ŵyr mewn damwain car. Mae'r ŵyr yn marw yn lleoliad y ddamwain ac mae'r ferch yn marw yn yr ysbyty yn fuan wedi hynny. Roedd yr ŵyr yn ei ail flwyddyn o gwrs gradd yn y gyfraith yn Llundain.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gofyn am gyngor ynghylch pwy sydd â hawl i'r gronfa ymddiriedolaeth.

**Pa un o'r datganiadau canlynol sy'n disgrifio orau pwy sydd â hawl i'r gronfa ymddiriedolaeth?**

A. Mae'r gronfa ymddiriedolaeth yn perthyn i ystad y ferch oherwydd iddi oroesi (survived) yr ŵyr.

B. Mae'r gronfa ymddiriedolaeth yn perthyn i ystad yr ŵyr gan mai bwriad y setlor oedd y dylai'r ŵyr ei chael hi wedi i'r ferch farw.

C. Mae'r gronfa ymddiriedolaeth yn perthyn i'r dyn gan nad oedd yr ŵyr wedi goroesi (survived) y ferch.

D. Bydd y gronfa ymddiriedolaeth yn cael ei rhannu'n gyfartal rhwng ystadau'r ferch a'r ŵyr.

E. Mae'r gronfa ymddiriedolaeth yn perthyn i'r dyn gan i'w ŵyr fethu â bodloni'r amod.

**Cwestiwn 47**

Roedd menyw yn meddiannu (occupy) siop ar les sy'n ddwy flynedd o hyd. Ar ddiwedd y cyfnod, adnewyddwyd y les am ddwy flynedd arall. Mae'r fenyw yn parhau i feddiannu'r siop ar y les newydd. Gwnaed y les newydd drwy weithred (by deed) ac nid oedd ei darpariaethau'n cyfeirio at a.62 o Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925.

Yng nghefn y siop, mae storfa allanol, sy'n eiddo i'r landlord. Er nad yw wedi'i gynnwys yn y naill les na'r llall, mae'r fenyw bob amser wedi ei defnyddio i gadw stoc. Ar ddechrau'r les wreiddiol, dywedodd y landlord ei fod yn hapus i'r fenyw wneud hyn, cyn belled â'i bod yn cadw'r storfa'n daclus, gan ei fod yntau hefyd yn ei defnyddio ar gyfer storio.

Ddoe, datgelodd y landlord ei gynllun i ddymchwel y storfa. Mae'r fenyw eisiau atal hyn rhag digwydd trwy sefydlu bod ganddi hawl i ddefnyddio'r storfa.

**A oes gan y fenyw hawddfraint orfodadwy (enforeceable easement) i ddefnyddio'r storfa?**

A. Oes, gan fod ei thrwydded i ddefnyddio'r storfa wedi'i throi'n hawddfraint yn y les newydd.

B. Oes, gan fod y storfa'n angenrheidiol i'w busnes.

C. Nac oes, gan mai trwydded yn unig oedd y cytundeb i ganiatáu iddi gadw stoc yn y storfa.

D. Nac oes, gan na chofnodwyd yn ysgrifenedig y cytundeb i ganiatáu iddi gadw stoc yn y storfa.

E. Nac oes, gan ei bod hi'n rhannu'r defnydd o'r storfa gyda'r landlord.

**Cwestiwn 48**

Mae dyn yn cael ei arestio am 11pm ar nos Fercher, dan amheuaeth o achosi niwed corfforol difrifol gyda bwriad (grievous bodily harm with intent) i fenyw. Caiff ei gludo i orsaf yr heddlu gan gyrraedd am 11.30pm ac awdurdodwyd iddo gael ei gadw yno am 11.45pm.

Mae ymchwiliadau'r heddlu'n parhau. Mae angen cynnal chwiliadau, cael gafael ar dystion a chael tystiolaeth feddygol. Bydd oedi cyn y gellir cael y dystiolaeth feddygol gan fod y fenyw yn cael llawdriniaeth ddwys. Mae'r swyddogion ymchwilio yn rhagweld y bydd angen iddynt ddefnyddio'r pwerau cadw hiraf posibl sydd ar gael i'r heddlu cyn gwneud cyhuddiad (charge), ac efallai y bydd angen iddynt ofyn i'r Llys Ynadon am warant i gadw'r dyn am ragor o amser.

**Tan pryd y gellir cadw'r dyn cyn gwneud cyhuddiad, heb warant i'w gadw am ragor o amser?**

A. 11.30pm ar y nos Iau.

B. 11.45pm ar y nos Iau.

C. 11am ar y dydd Gwener.

D. 11.30am ar y dydd Gwener.

E. 11.45am ar y dydd Gwener.

**Cwestiwn 49**

Roedd dyn wedi gwahanu oddi wrth ei wraig rai blynyddoedd yn ôl. Maen nhw'n parhau i fod yn ffrindiau ac ni wnaethon nhw ysgaru. Dechreuodd y dyn gyd-fyw â'i bartner dair blynedd yn ôl.

Chwe wythnos yn ôl, roedd y dyn, ei wraig a'u merch (a oedd yn 21 oed) mewn damwain car tra oeddent ar eu ffordd i seremoni raddio'r ferch. Cafodd y dyn ei ladd yn syth. Bu farw'r wraig a'r ferch y diwrnod canlynol.

Mae'r partner a oedd byw gyda'r dyn yn dal yn fyw. Nid oes gan y dyn unrhyw berthnasau eraill. Bu farw'n ddiewyllys (intestate) a'i ystad net, sy'n is na swm y rheolau diewyllysedd, yw £1,500,000.

**Pa un o'r canlynol yw'r disgrifiad gorau o sut y bydd ystad y dyn yn cael ei dosbarthu?**

A. Bydd yn cael ei dosbarthu i ystad y wraig yn unig.

B. Bydd yn cael ei dosbarthu i ystad y wraig ac ystad y ferch.

C. Bydd yn cael ei dosbarthu i ystad y ferch yn unig.

D. Bydd yn cael ei dosbarthu i'r partner a oedd yn byw gyda'r dyn yn unig.

E. Bydd yn cael ei dosbarthu i'r partner a oedd yn byw gyda'r dyn, ac i ystad y ferch.

**Cwestiwn 50**

Rhoddwyd les busnes dyddiedig 15 Gorffennaf 1989 i gwmni (‘y Tenant’). Dechreuodd ar 24 Mehefin 1989 am gyfnod o 50 mlynedd.

Mae’r Tenant wrthi’n aseinio gweddill cyfnod y les i gwmni arall (‘yr Aseinai’ (assignee)).

Mae’r les yn darparu mai dim ond gyda chydsyniad (consent) y landlord y gellir aseinio’r les (ni ddylid gohirio’r cysyniad yn afresymol). Mae’r Tenant wedi gwneud cais i’r landlord presennol (‘y Landlord’) am gydsyniad i aseinio’r les ac mae’r Landlord wedi nodi ei fod yn cydsynio mewn egwyddor yn amodol ar gwblhau trwydded i aseinio.

Mae cyfreithiwr y Landlord yn drafftio’r drwydded i aseinio. Mae hi’n drafftio’r cyfamod (covenant) i lywodraethu atebolrwydd (liability) yn y dyfodol o dan unrhyw gyfamodau’r tenant yn y les.

**Pa un o’r cyfamodau canlynol y dylai cyfreithiwr y Landlord ei gynnwys yn y drwydded ddrafft i aseinio?**

A. Mae’r Tenant yn creu cyfamod â’r Landlord i ddarparu cytundeb gwarant awdurdodedig i’r Landlord (ar ffurf y cytunir arni) ar yr aseiniad.

B. Mae’r Tenant yn cyfamodi â’r Landlord y bydd yr Aseinai yn cyflawni’r cyfamodau yn y les drwy gydol gweddill cyfnod y les.

C. Mae’r Tenant yn cyfamodi â’r Landlord y bydd yr Aseinai’n cyflawni’r cyfamodau yn y les tan y tro nesaf y caiff y les ei aseinio’n ddilys gyda chydsyniad y Landlord.

D. Mae’r Aseinai’n cyfamodi â’r Landlord i gyflawni’r cyfamodau yn y les drwy gydol gweddill cyfnod y les.

E. Mae’r Aseinai’n cyfamodi â’r Landlord i gyflawni ei gyfamodau yn y les tan y tro nesaf y caiff y les ei aseinio’n ddilys gyda chydsyniad y Landlord.

**Cwestiwn 51**

Mae menyw yn berchen ar dŷ rhydd-ddaliad (freehold) cofrestredig. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gofynnodd datblygwr eiddo i'r fenyw wneud cytundeb opsiwn (option agreement) gydag ef. Yn gyfnewid am ffi'r cytundeb hwn, cytunodd y fenyw i roi'r dewis i'r datblygwr eiddo brynu ei thŷ unrhyw bryd o fewn pum mlynedd ar ôl y cytundeb opsiwn. Yn ddiweddar, cytunwyd ar y cytundeb opsiwn a chafodd ei gyfnewid.

**Pa un o'r canlynol sy'n cynrychioli'r ffordd orau i'r datblygwr eiddo ddiogelu'r cytundeb opsiwn?**

A. Cofrestru fel hysbysiad.

B. Cofrestru fel pridiant tir (land charge) C(iv).

C. Cofrestru fel pridiant tir (land charge) D(ii).

D. Cofrestru fel buddiant sy'n drech na (overriding) gwarediad cofrestredig (registered disposition).

E. Cofrestru fel gwarediad cofrestradwy (registrable disposition).

**Cwestiwn 52**

Mae menyw yn dal dig (holds a grudge) yn erbyn ei chyn-gyflogwr.

Mae’r fenyw yn mynd i dŷ’r cyn-gyflogwr gan fwriadu torri un o ffenestri’r tŷ gyda bricsen. Mae hi’n gweld car ar ddreif y tŷ ac yn sylweddoli y gallai rhywun fod yn y tŷ. Mae hi hefyd yn sylweddoli, os bydd hi’n taflu’r fricsen, y gallai bywyd unrhyw un sydd yn y tŷ fod mewn perygl naill ai gan y fricsen neu drwy ddarnau o wydr yn hedfan o ganlyniad i dorri’r ffenestr gan y fricsen. Fodd bynnag, nid yw’n bwriadu anafu unrhyw un na pheryglu bywyd neb.

Mae’r fenyw yn taflu bricsen drwy ffenestr y gegin. Mae’r ffenestr yn torri ac mae darnau o wydr yn cael eu taflu i’r gegin o ganlyniad. Mae mab y cyn-gyflogwr yn eistedd yn y gegin. Mae’r fricsen yn hedfan heibio iddo ac yn methu ei daro o drwch blewyn. Mae’r mab yn cael ei anafu gan nifer o ddarnau o wydr sy’n hedfan, gan achosi anafiadau sy’n peryglu ei fywyd.

**Pa un o’r canlynol sy’n disgrifio orau pam mae’r fenyw yn euog o ddifrod troseddol gwaethygedig (aggravated criminal damage)?**

A. Roedd hi’n bwriadu taflu’r fricsen drwy ffenestr y gegin ac o ganlyniad i hynny cafodd y mab ei anafu gan wydr yn hedfan.

B. Roedd hi’n bwriadu taflu’r fricsen drwy ffenestr y gegin ac o ganlyniad i hynny rhoddwyd bywyd y mab mewn perygl gan wydr yn hedfan.

C. Roedd hi’n bwriadu taflu’r fricsen drwy ffenestr y gegin ac o ganlyniad i hynny rhoddwyd bywyd y mab mewn perygl gan y fricsen.

D. Roedd hi’n bwriadu taflu’r fricsen drwy ffenestr y gegin ac roedd hi’n ddi-hid (reckless) ynghylch a fyddai bywyd mewn perygl gan y fricsen o ganlyniad i hynny.

E. Roedd hi’n bwriadu taflu’r fricsen drwy ffenestr y gegin ac roedd hi’n ddi-hid (reckless) ynghylch a fyddai bywyd mewn perygl gan wydr yn hedfan o ganlyniad i hynny.

**Cwestiwn 53**

Mae menyw yn marw gan adael ei hystad gyfan i elusen. Mae'r ysgutorion (executors) yn dod ar draws y ddogfen ganlynol ymhlith papurau'r fenyw:

"Drwy hyn rwy'n cadarnhau fy mod yn dal fy mwthyn gwyliau mewn ymddiriedolaeth i'm mab a'm merch-yng-nghyfraith."

Dyddiad flwyddyn yn ôl sydd ar y ddogfen ac mae llofnod y fenyw arni. Nid oedd tyst i'r llofnod.

Nid oedd y fenyw wedi cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r bwthyn yr oedd hi'r unig berchennog cofrestredig arno. Doedd ei mab a'i merch-yng-nghyfraith (y mae'r ddau ohonynt yn oedolion) ddim yn gwybod dim am y ddogfen. Roedden nhw wedi ymddieithrio (estranged) oddi wrth y fenyw ac nid oeddent wedi bod mewn cysylltiad â hi yn ystod y chwe mis cyn ei marwolaeth.

Mae'r mab a'r ferch-yng-nghyfraith yn honni bod y bwthyn wedi'i ddal mewn ymddiriedolaeth ar eu cyfer nhw ac nid yw'n rhan o ystad y fenyw.

**Pa un o'r ffactorau canlynol sy'n berthnasol wrth benderfynu a yw'r bwthyn wedi'i ddal mewn ymddiriedolaeth i'r mab a'r ferch-yng-nghyfraith?**

A. Mae'r mab a'r ferch-yng-nghyfraith yn oedolion.

B. Roedd teitl cyfreithiol y bwthyn yn eiddo i'r fenyw pan gyhoeddodd hi'r ymddiriedolaeth.

C. Nid oedd y fenyw wedi trosglwyddo'r teitl cyfreithiol i'r bwthyn cyn ei marwolaeth.

D. Roedd y mab a'r ferch-yng-nghyfraith wedi ymddieithrio oddi wrth y fenyw.

E. Nid oedd y fenyw wedi cyflawni gweithred (deed) yn datgan yr ymddiriedolaeth.

**Cwestiwn 54**

Bu farw dyn ym mis Rhagfyr 2024. Roedd wedi gwneud tair rhodd oes (lifetime gifts) yn unig, pob un ohonynt i'w fab, i helpu gyda chostau atgyweirio tŷ'r mab. Dyma'r rhoddion:

| | |
|---|---|
| Mai 2018 | £3,000 |
| Gorffennaf 2019 | £4,000 |
| Awst 2021 | £7,000 |

**Beth yw cyfanswm cronnol (cumulative total) y dyn at ddiben Treth Etifeddiant ar ddyddiad ei farwolaeth?**

A. £0

B. £1,000

C. £2,000

D. £4,000

E. £5,000

**Cwestiwn 55**

Mae'r heddlu'n cael ei alw i far mewn perthynas â honiad o ymosodiad. Mae swyddogion yr heddlu sy'n mynd i'r bar yn siarad â dyn sy'n gwaedu o doriad i'r wyneb. Mae menyw yn cael ei harestio yn y bar ar amheuaeth o ymosodiad ar y dyn sy'n achosi gwir niwed corfforol (actual bodily harm) iddo. Mae'r swyddog arestio yn sylwi ar waed ar law'r fenyw.

Mae'r fenyw yn cael ei chludo i orsaf yr heddlu. Awdurdodir iddi gael ei chadw yno ac yna caiff ei chyfweld dan rybudd (under caution) ym mhresenoldeb ei chyfreithiwr. Yn unol â chyngor ei chyfreithiwr, mae'r fenyw yn arfer ei hawl i aros yn ddistaw yn y cyfweliad ac nid yw'n rhoi eglurhad am y gwaed ar ei llaw.

Mae'r swyddog cyfweld yn rhybuddio'r fenyw bod ymchwiliad yn cael ei gynnal i ymosodiad ac mae'n gofyn iddi roi esboniad am y gwaed ar ei llaw oherwydd credir y gallai'r gwaed fod yno oherwydd iddi gyflawni'r ymosodiad. Caiff hi ei hatgoffa bod y cyfweliad yn cael ei recordio ac y gellir rhoi'r cofnod fel tystiolaeth mewn gwrandawiad llys, ac y gallai llys ddod i gasgliad (draw an inference) yn ddiweddarach os bydd hi'n methu rhoi esboniad am y gwaed yn ystod y cyfweliad. Mae'r fenyw yn parhau i arfer ei hawl i aros yn ddistaw.

Mae'r fenyw yn cael ei chyhuddo (charged) o ymosod ar y dyn gan achosi gwir niwed corfforol iddo. Mae'r fenyw yn pledio'n ddieuog ac yn gwrthod rhoi tystiolaeth yn ei threial.

**A oes modd gwahodd llys y treial i ddod i gasgliad a fyddai'n niweidiol i'r fenyw gan iddi fethu rhoi esboniad am y gwaed ar ei llaw yn ei chyfweliad dan rybudd?**

A. Nac oes. Gan nad yw'r fenyw yn rhoi tystiolaeth yn ei threial, nid yw'n dibynnu ar ffaith yn ei hamddiffyniad nad oedd hi wedi sôn amdani yn ei chyfweliad dan rybudd.

B. Nac oes, gan fod hawl gan y fenyw i aros yn ddistaw yn ei chyfweliad dan rybudd.

C. Nac oes, gan fod cyfreithiwr y fenyw wedi ei chynghori i arfer ei hawl i aros yn ddistaw yn ei chyfweliad dan rybudd.

D. Oes, oherwydd y rhybudd (warning) a roddwyd i'r fenyw yn ei chyfweliad dan rybudd.

E. Oes, gan y byddai wedi bod yn rhesymol i'r fenyw egluro'r gwaed ar ei llaw yn ei chyfweliad dan rybudd.

**Cwestiwn 56**

Mae menyw yn prynu eiddo rhydd-ddaliadol (freehold). Dewisodd hi'r eiddo gan ei fod yn cynnwys garej fawr ar wahân a fyddai'n ddelfrydol ar gyfer storio ei chasgliad o bum car o dras (vintage).

Cafodd contractau sy'n ymgorffori'r Amodau Gwerthu Safonol (Pumed Argraffiad - Diwygiad 2018) (SCS), heb eu diwygio, eu cyfnewid yr wythnos diwethaf. Mae'r fenyw wedi darganfod bod tân wedi bod yn yr eiddo neithiwr. Er na fu effaith ar y tŷ, mae'r garej wedi ei dinistrio. Nid yw'r fenyw'n siŵr ei bod hi am fwrw ymlaen â phrynu'r eiddo gan y bydd hi'n cymryd chwe mis i ailadeiladu'r garej. Mae hi'n poeni am unrhyw gostau ychwanegol y gallai hyn eu golygu ac nid yw'n gwybod ble y bydd ei cheir yn cael eu storio yn y cyfamser.

Mae'r fenyw yn gofyn i'w chyfreithiwr am gyngor.

**Beth ddylai'r cyfreithiwr ei gynghori i'r fenyw?**

A. Mae hi wedi ymrwymo'n gytundebol i gwblhau'r pryniant. Ni fydd unrhyw ostyngiad yn y pris prynu gan fod y risg yn cael ei throsglwyddo iddi hi wrth gyfnewid.

B. Ni ellir ei gorfodi hi i gwblhau'r pryniant gan fod rhan bwysig o destun y contract wedi'i dinistrio.

C. Mae hi wedi ymrwymo'n gytundebol i gwblhau'r pryniant. Roedd yr SCS yn mynnu bod y fenyw yn prynu polisi yswiriant a rhaid iddi ddefnyddio unrhyw enillion i adfer y garej.

D. Mae hi wedi ymrwymo'n gytundebol i gwblhau'r pryniant. Mae'r risg yn parhau gyda'r gwerthwr sy'n gorfod adfer y garej er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau o dan y contract.

E. Mae hi'n gallu penderfynu a fydd hi'n bwrw ymlaen ai peidio. Os bydd hi'n bwrw ymlaen, mae hi'n gallu gorfodi'r gwerthwr i adfer y garej i'r safon yr oedd ar ddyddiad y contract.

**Cwestiwn 57**

Mae cwmni o gyfreithwyr yn gweithredu ar ran ysgutorion (executors) ystad dyn a fu farw. Mae newydd gael y grant profiant (grant of probate). Wrth wneud cais am y grant profiant, talodd y cwmni'r ffi berthnasol i'r gwasanaeth profiant, sef £300, o'i gyfrif banc busnes. Mae'r cwmni'n cael £5,225 gan fanc y dyn a fu farw, sef y balans a oedd gan y dyn a fu farw wrth gau ei gyfrif, ac mae'r cwmni'n talu'r swm hwnnw i mewn i gyfrif banc cyffredinol i gleientiaid y cwmni.

Mae'r cwmni wedi cael anfoneb am £200 (dim TAW yn daladwy), ond nid yw wedi ei thalu eto. Mae'r anfoneb wedi'i chyfeirio at y cwmni gan brisiwr lleol a ddarparodd brisiad profiant (probate valuation) ar ddodrefn y dyn a fu farw.

Mae'r cwmni'n cyflwyno bil i'r ysgutorion fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Costau proffesiynol | £1,000 |
| TAW | £200 |
| Alldaliad (disbursement) wedi ei dalu (ffi profiant) | £300 |
| Alldaliad heb ei dalu (ffi prisio) | £200 |
| **Cyfanswm** | **£1,700** |

**Beth yw'r uchafswm y gall y cwmni ei drosglwyddo i gyfrif banc busnes y cwmni?**

A. £1,000

B. £1,300

C. £1,200

D. £1,400

E. £1,700

**Cwestiwn 58**

Mae ffermwr yn gwerthu cae, sy'n ffurfio rhan o'i fferm, i ddyn. Wrth drosglwyddo mae'r dyn yn cytuno na fydd ef na'i olynwyr yn y teitl (successors in title) yn codi mwy na phedwar tŷ unllawr ar y cae.

**Beth yw natur y buddiant a grëwyd yn y trosglwyddiad?**

A. Buddiant cyfreithiol gan mai cyfamod cyfyngiadol (restrictive covenant) yw hwn.

B. Buddiant ecwitïol gan mai cyfamod cyfyngiadol (restrictive covenant) yw hwn.

C. Buddiant ecwitïol gan mai cyfamod cadarnhaol (positive covenant) yw hwn.

D. Buddiant cyfreithiol gan mai cyfamod cadarnhaol (positive covenant) yw hwn.

E. Buddiant ecwitïol gan mai contract ystad yw hwn.

**Cwestiwn 59**

Wrth i ddyn gerdded ar hyd stryd, mae menyw yn rhedeg tuag ato yn gweiddi'n uchel ac yn chwifio ei breichiau. Mae'r dyn yn cael ei ddrysu gan beth mae'r fenyw yn ei weiddi, ond mae'n credu'n wirioneddol fod y fenyw ar fin ymosod arno. Ni fyddai person rhesymol yn sefyllfa'r dyn wedi credu bod y fenyw ar fin ymosod arno.

Wrth i'r fenyw agosáu at y dyn, mae'r dyn yn gwthio ei brest hi gyda'i ddwy law, gan achosi iddi faglu am yn ôl. Byddai'r grym yr oedd y dyn yn ei ddefnyddio wrth wthio'r fenyw wedi bod yn rhesymol pe bai hi'n ymosod ar y dyn. Mae'r fenyw yn cael ei syfrdanu ac yn gwylltio, ond nid yw wedi'i hanafu. Mae'r fenyw yn egluro wrth y dyn mai ceisio ei rybuddio bod teils yn disgyn oddi ar do adeilad cyfagos yr oedd hi.

Mae heddwas yn gweld y digwyddiad ac mae'r dyn yn cael ei arestio a'i gyhuddo (charged) wedi hynny o ymosodiad cyffredin. Mae'r dyn yn bwriadu dibynnu yn y llys ar yr amddiffyniad ei fod yn amddiffyn ei hun pan wthiodd y fenyw.

**Pa un o'r canlynol sy'n egluro orau a all y dyn ddibynnu ar hunanamddiffyniad?**

A. Ni all ddibynnu ar hunanamddiffyniad, gan iddo wthio'r fenyw cyn iddi ymosod arno'n gorfforol.

B. Ni all ddibynnu ar hunanamddiffyniad, gan fod ei gred bod y fenyw ar fin ymosod arno yn afresymol.

C. Ni all ddibynnu ar hunanamddiffyniad, gan fod ei gred bod y fenyw ar fin ymosod arno yn anghywir.

D. Gall ddibynnu ar hunanamddiffyniad, gan ei fod yn credu bod y fenyw ar fin ymosod arno ac roedd y grym a ddefnyddiodd ef yn rhesymol.

E. Gall ddibynnu ar hunanamddiffyniad, gan ei fod yn credu bod y fenyw ar fin ymosod arno ac nid achosodd niwed afresymol i'r fenyw.

**Cwestiwn 60**

Roedd menyw wedi prynu tŷ yng Nghymru am £300,000 bum mlynedd yn ôl. Mae hi wedi gwneud gwaith adnewyddu ac ailwampio sylweddol iddo.

Mae contractau ar gyfer gwerthu'r tŷ i brynwr wedi cael eu cyfnewid. Y pris gwerthu yw £450,000.

Mae cyfreithiwr y prynwr yn paratoi i gwblhau. Ar hyn o bryd mae'n drafftio cyfriflen ariannol (financial statement) i'w gleient ac mae angen iddo gynnwys y dreth sy'n daladwy ar ôl cwblhau'r pryniant.

**Pa dreth fydd yn rhaid i'r prynwr ei dalu ar ôl cwblhau'r pryniant?**

A. Treth Stamp (Stamp Duty).

B. Treth Trafodiadau Tir (Land Transaction Tax).

C. Treth ar Enillion Cyfalaf (Capital Gains Tax).

D. Treth Dir y Dreth Stamp (Stamp Duty Land Tax).

E. Treth ar Werth (Value Added Tax).

**Cwestiwn 61**

Mae dyn yn ymddiriedolwr (trustee) ar gyfer cronfa o £500,000. Yn groes i'r ymddiriedolaeth, mae'n trosglwyddo £200,000 o arian yr ymddiriedolaeth i'w bartner i'w galluogi hi i brynu tŷ. Mae'r dyn yn gwneud hyn gan ei fod eisiau creu argraff arni.

Mae partner y dyn yn gwybod nad yw'r dyn yn ddigon cyfoethog i allu fforddio trosglwyddo £200,000 iddi. Mae hi'n gwybod bod ganddo nifer o gredydwyr sy'n dod i gyfanswm o fwy na £200,000. Roedd y dyn wedi dweud wrthi ar sawl achlysur blaenorol ei fod yn ymddiriedolwr ac y byddai'n barod i gymryd arian yn anghyfreithlon gan yr ymddiriedolaeth i'w ddefnyddio at ei ddibenion ei hun.

Ni ofynnodd partner y dyn ynglŷn â ffynhonnell y £200,000, gan ei bod hi'n teimlo trueni dros y dyn ac nid oedd am frifo ei deimladau. Ar ben hyn, roedd hi'n awyddus i gael yr arian i'w ddefnyddio at ei dibenion ei hun. Yn lle prynu tŷ, gwariodd yr holl arian ar bartïon a gwyliau drud.

Erbyn hyn mae'r dyn wedi diflannu, yn dal mewn dyled i'w gredydwyr. Mae buddiolwyr (beneficiaries) yr ymddiriedolaeth bellach am wneud hawliad personol o £200,000 yn erbyn y partner.

**A yw hawliad personol yn erbyn y partner yn debygol o lwyddo?**

A. Ydy, gan ei bod hi wedi ymddwyn yn anonest wrth gynorthwyo'r dyn i dorri ei ymddiriedolaeth.

B. Ydy, gan fod yr wybodaeth a oedd ganddi yn ei gwneud hi'n amheus ond penderfynodd beidio â holi am yr arian.

C. Nac ydy, gan iddi ddefnyddio'r arian at ddibenion gwahanol i'r diben yr oedd y dyn yn ei fwriadu.

D. Nac ydy, gan nad oedd ganddi wybodaeth wirioneddol bod y dyn yn torri ymddiriedolaeth.

E. Nac ydy, gan ei bod hi wedi gwastraffu'r arian a roddodd y dyn iddi.

**Cwestiwn 62**

Mae menyw yn penderfynu gwneud ewyllys yn ei chartref. Ar ddarn o bapur, mae hi'n ysgrifennu'r darpariaethau (provisions) y mae hi am eu cynnwys. Mae hi'n llofnodi'r ewyllys ar y gwaelod ac yna'n gofyn i ddau gymydog ddod i'w thŷ i weithredu fel tystion.

Tra bod y ddau dyst yn bresennol yn yr ystafell fyw, mae'r fenyw yn pwyntio at ei llofnod ar waelod yr ewyllys ac yn dweud: "Rwyf wedi ei llofnodi'n barod." Yna mae'r tyst hŷn a'r fenyw yn mynd i'r gegin i wneud diod. Tra eu bod yn y gegin, mae'r tyst iau yn llofnodi'r ewyllys o dan lofnod y fenyw. Yna mae'r tyst hŷn a'r fenyw yn dychwelyd i'r ystafell fyw a, thra bod y tri gyda'i gilydd, mae'r tyst hŷn yn ychwanegu ei llofnod hi i'r ewyllys o dan lofnod y tyst iau.

Does dim dyddiad na chymal ardystio (attestation clause) yn yr ewyllys.

**Pam bod ewyllys y fenyw yn annilys?**

A. Gan nad oes dyddiad ar yr ewyllys.

B. Gan na welodd y tystion y fenyw yn llofnodi'r ewyllys.

C. Gan nad oedd y fenyw yn bresennol pan oedd y tyst iau wedi llofnodi'r ewyllys.

D. Gan na welodd y tystion ei gilydd yn llofnodi'r ewyllys.

E. Gan nad oes cymal ardystio ar yr ewyllys.

**Cwestiwn 63**

Mae menyw yn berchen ar rydd-ddaliad (freehold) cofrestredig ar gyfer gweithdy.

Mae hi'n cytuno ar lafar i roi'r hawl unigryw (exclusive right) i artist feddiannu'r gweithdy fel stiwdio iddo. Maent yn cytuno y bydd y trefniant yn para am 12 mis ac y bydd yr artist yn cymryd meddiant ar unwaith. Ni fydd taliad ymlaen llaw ond bydd rhent misol y farchnad yn daladwy.

Mae'r artist yn cadarnhau telerau'r trefniant mewn e-bost. Mae'r fenyw yn darllen yr e-bost ond nid yw hi'n ei gydnabod.

Nid yw'r artist yn cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r trefniant ond, cyn i'r artist symud i mewn i'r gweithdy, mae'r fenyw yn dweud wrtho ei bod hi wedi newid ei meddwl.

Mae'r artist yn honni bod y trefniant wedi creu cytundeb gorfodadwy (enforceable) sy'n caniatáu iddo feddiannu'r gweithdy fel stiwdio iddo.

**Beth sydd wedi'i greu gan y trefniant?**

A. Les gyfreithiol, gan fod y cytundeb llafar yn ddigonol.

B. Les ecwitïol, gan fod yr e-bost yn ysgrifenedig ond nid yw'n weithred (deed).

C. Trwydded, gan nad yw'r partïon wedi llofnodi'r e-bost.

D. Trwydded, gan nad yw'r artist wedi ymgymryd â meddiant (taken up occupation).

E. Les ecwitïol, gan nad oes modd cofrestru'r cytundeb llafar.

**Cwestiwn 64**

Mae menyw yn ffonio'r gwasanaethau brys ac yn siarad â pherson sy'n trin galwadau ac nad yw'n heddwas (civilian call handler). Mae hi'n swnio'n drist ac yn crio. Mae hi'n honni bod ei gŵr, y mae hi'n ei enwi, newydd ymosod arni trwy ei dyrnu (punch) hi yn y wyneb. Mae hi'n dweud ei bod hi wedi cloi ei hun yn yr ystafell ymolchi yn eu tŷ i wneud yr alwad am ei bod yn ofni y bydd e'n ymosod arni unwaith eto. Mae hi'n gofyn i swyddogion yr heddlu ddod i'w cyfeiriad. Mae'r alwad yn cael ei recordio.

Pan mae'r heddweision yn cyrraedd ychydig funudau'n ddiweddarach mae'r gŵr yn dal i fod yn y tŷ. Mae'r fenyw wedi'i chloi yn yr ystafell ymolchi ac mae'n dal i fod yn ofidus ac yn crio. Mae'r heddweision sy'n bresennol yn perswadio'r fenyw i ddod allan o'r ystafell ymolchi ac maent yn sylwi bod ei hwyneb yn goch a bod cleisiau arno. Mae'r gŵr yn cael ei arestio ar amheuaeth o ymosod ar y fenyw. Mae'r fenyw yn gwrthod rhoi datganiad i'r heddweision.

Mae'r gŵr yn arfer ei hawl i aros yn ddistaw pan gaiff ei gyfweld gan swyddogion yr heddlu dan rybudd (under caution). Mae'n cael ei gyhuddo o ymosodiad cyffredin (common assault). Mae'n pledio'n ddieuog ac mae ei achos yn cael ei ohirio ar gyfer treial (adjourned for trial). Mae'r fenyw yn gwrthod dod i'r llys i roi tystiolaeth gan ddweud nad yw hi'n ofni ei gŵr a'i bod am i'w perthynas barhau. Mae'r erlyniad (prosecution) yn dymuno dibynnu ar y cyfrif a roddodd y fenyw yn ystod ei galwad ffôn i'r gwasanaethau brys yn nhreial y gŵr.

**Yn nhreial y gŵr, fel rhan o'r res gestae, a oes modd derbyn yr wybodaeth a roddodd y fenyw yn ystod yr alwad ffôn?**

A. Nac oes, gan na fydd y fenyw'n rhoi tystiolaeth lafar yn nhreial y gŵr.

B. Nac oes, gan nad yw'r fenyw wedi rhoi datganiad ysgrifenedig.

C. Oes, gan i'r wybodaeth gael ei rhoi dan amgylchiadau lle gellir diystyru'r posibilrwydd o ffugio (concoction).

D. Oes, gan fod yr wybodaeth wedi'i chadarnhau gan y cochni a'r cleisio ar wyneb y fenyw a welodd swyddogion yr heddlu a oedd yn bresennol.

E. Na, gan na chafodd yr wybodaeth ei rhoi i swyddog yr heddlu.

**Cwestiwn 65**

Mae tri ffrind yn berchen ar eiddo rhydd-ddaliadol (freehold) cofrestredig gyda'i gilydd fel tenantiaid cydradd (tenants in common) mewn cyfrannau cyfartal (equal shares). Mae'r eiddo yn ddarostyngedig i gyfamodau cyfyngiadol (restrictive covenants).

Mae un o'r ffrindiau wedi marw. Yn ddiweddar mae ysgutorion (executors) ei ystad wedi cael grant profiant (grant of probate).

Mae'r eiddo wrthi'n cael ei werthu i brynwr. Bydd hi'n dal yr eiddo mewn ymddiriedolaeth iddi hi a'i mab sy'n oedolyn.

Mae'r contract ar gyfer y gwerthiant wedi'i gyfnewid. Mae hyn yn ymgorffori'r Amodau Gwerthu Safonol (Pumed Argraffiad – Diwygiad 2018) heb unrhyw ddiwygiadau perthnasol.

Mae'r trosglwyddiad wrthi'n cael ei ddrafftio yn barod i'w gwblhau.

**Pwy, os unrhyw un, sy'n gorfod gweithredu'r trosglwyddiad, ar wahân i'r ddau ffrind sy'n dal i fyw?**

A. Neb.

B. Yr ysgutorion yn unig.

C. Y prynwr yn unig.

D. Yr ysgutorion a'r prynwr yn unig.

E. Yr ysgutorion, y prynwr a'r mab sy'n oedolyn.

**Cwestiwn 66**

Mae cronfa ymddiriedolaeth, ag iddi un ymddiriedolwr yn unig, yn cael ei dal i ddyn am oes, gyda'r gweddilliad (remainder) i ferch y dyn sy'n 23 oed. Nid yw'r offeryn ymddiriedolaeth yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau sy'n berthnasol i'r buddsoddiad.

Mae'r ferch yn awgrymu i'r ymddiriedolwr y dylid buddsoddi £200,000 o'r gronfa mewn tir yn Awstralia. Nid yw'r dyn wedi mynegi barn am hyn. Mae'r ymddiriedolwr yn asiant eiddo o Loegr sydd wedi ymddeol yn ddiweddar ond ychydig cyn ei ymddeoliad, treuliodd bum mlynedd yn gweithio yn Awstralia, lle datblygodd arbenigedd ym marchnad eiddo Awstralia. Mae'r ymddiriedolwr yn cytuno gydag awgrym y ferch ac yn buddsoddi £200,000 mewn tir yn Awstralia.

Yn ystod y flwyddyn ers i'r ymddiriedolaeth wneud y buddsoddiad, mae gwerth tir yn Awstralia wedi gostwng, ac erbyn hyn dim ond £100,000 yw gwerth y tir a brynwyd gan yr ymddiriedolaeth.

**A oes gan yr ymddiriedolwr unrhyw atebolrwydd am y gostyngiad mewn gwerth?**

A. Nac oes, oherwydd ei fod wedi gweithredu fel dyn doeth busnes (prudent man of business).

B. Nac oes, oherwydd ei fod wedi gweithredu'n unol ag awgrym y ferch.

C. Nac oes, oherwydd bod y tir yn fuddsoddiad hirdymor.

D. Oes, oherwydd bod tir dramor yn fuddsoddiad anawdurdodedig.

E. Oes, oherwydd ei fod yn arbenigwr mewn gwerth tir yn Awstralia a dylai fod wedi gwybod nad oedd yn fuddsoddiad doeth.

**Cwestiwn 67**

Mae menyw yn credu bod ei chariad yn caru ar y slei (having an affair) ac yn mynd i'w gartref i'w wynebu a dod â'r berthynas i ben. Mae hi'n mynd â bag o eiddo'r cariad gyda hi er mwyn ei ddychwelyd iddo, sy'n cynnwys pâr o'i esgidiau ef. Nid yw ei chariad hi'n ateb ei ddrws blaen. Mae'r fenyw'n argyhoeddedig ei fod ef yn y cartref ac yn dechrau gwylltio. Mae hi'n sefyll yn ei ardd flaen ac yn gweiddi, gan fynnu iddo ei gadael hi i mewn.

Mae dyn yn dod allan o'r tŷ cyfagos ac yn sefyll ychydig y tu allan i'w ddrws blaen. Mae'r dyn yn gofyn i'r fenyw fod yn dawel, sy'n gwylltio'r fenyw ymhellach. Mae'r fenyw wedi'i gwahanu o'r dyn gan ffens dal rhwng cartref y cariad a'r tŷ cyfagos ond mae hi'n cymryd un o esgidiau ei chariad o'r bag ac yn ei daflu dros y ffens at y dyn. Mae hi'n bwriadu achosi i'r dyn ddisgwyl cael ei fwrw gan yr esgid a'i fwrw'n wirioneddol gydag ef. Mae'r dyn yn disgwyl i'r esgid ei fwrw, fel y byddai unrhyw berson rhesymol yn sefyllfa'r dyn. Mae'n gostwng ei ben yn gyflym ac mae'r esgid yn ei basio, gan fwrw'r drws blaen.

Mae'r dyn yn dychwelyd i'w dŷ ei hun, heb anafiadau, ac yn ffonio'r heddlu i adrodd am y digwyddiad.

**A all y fenyw fod yn euog o ymosodiad cyffredin ar y dyn?**

A. Gall, oherwydd bod y dyn yn disgwyl cael ei fwrw gan yr esgid.

B. Na all, oherwydd nid oedd unrhyw gyswllt corfforol uniongyrchol rhwng y dyn a'r fenyw.

C. Na all, oherwydd ni wnaeth yr esgid gyswllt â'r dyn.

D. Na all, oherwydd ni wnaeth y dyn ddisgwyl unrhyw gyswllt corfforol uniongyrchol rhyngddo ef a'r fenyw.

E. Gall, oherwydd byddai person rhesymol yn sefyllfa'r dyn wedi disgwyl cael ei fwrw gan yr esgid.

**Cwestiwn 68**

Dair blynedd yn ôl, prynodd menyw rydd-ddaliad adeilad sy'n ddarostyngedig i les yr adeilad cyfan wedi'i diogelu gan Ddeddf Landlord a Thenant 1954 (Rhan II) (LTA).

Mae'r tenant yn rhedeg busnes recriwtio o'r adeilad.

Tymor y les yw 12 mlynedd ac mae deg mis o'r tymor yn weddill.

Ar dyddiad dod i ben contractiol y les, mae'r fenyw'n bwriadu ailffurfio'r adeilad, a'i droi'n fflatiau. Ni ellir cyflawni'r ailffurfio'n rhesymol heb gael meddiant o'r adeilad. Mae hi wedi cael y caniatâd cynllunio angenrheidiol ar gyfer y gwaith.

Mae'r fenyw newydd dderbyn hysbysiad o dan a.26 o LTA gan y tenant yn gofyn am les newydd.

Mae'r fenyw'n gofyn am gyngor cyfreithiol ynghylch y posibilrwydd o wrthod cais y tenant ar sail y ffaith ei bod hi'n bwriadu ailffurfio'r adeilad.

**Pa gyngor dylai'r cyfreithiwr ei roi ynghylch y posibilrwydd y gall y fenyw wrthod cais y tenant am les newydd ar y sail hon?**

A. Gall y fenyw ddibynnu ar y sail orfodol (mandatory) hon a bod digolledied (compensation) yn daladwy.

B. Gall y fenyw ddibynnu ar y sail orfodol (mandatory) hon ac nid yw digolledied (compensation) yn daladwy.

C. Gall y fenyw ddibynnu ar y sail ddisgresiynol hon ac, os bydd y fenyw'n llwyddiannus yn gwrthod cais y tenant am les newydd ar y sail hon, bydd digolledied (compensation) yn daladwy.

D. Ni all y fenyw ddibynnu ar y sail hon oherwydd nid yw hi wedi bod yn berchennog ar ei buddiant hi am ddigon hir.

E. Ni all y fenyw ddibynnu ar y sail hon gan fod y les yn llai na 14 mlynedd o hyd.

**Cwestiwn 69**

Mae dyn yn pledio'n ddieuog i gyhuddiad (charge) o ymosodiad cyffredin a chynhelir ei dreial yn y Llys Ynadon.

Honnir bod y dyn wedi bwrw menyw yn yr wyneb yn ystod digwyddiad y tu allan i glwb nos mewn canol dinas yn oriau mân y bore. Mae'r dyn yn gwadu mai fe yw'r person a wnaeth fwrw'r fenyw. Mae dau dyst yn rhoi tystiolaeth yn nhreial y dyn, gan ddweud eu bod nhw wedi'i weld yn bwrw'r fenyw. Mae'r dyn yn rhoi tystiolaeth yn ei amddiffyniad ac yn dweud bod y ddau dyst wedi gwneud camgymeriad.

Caiff y dyn ei ganfod yn euog o ymosodiad cyffredin ac mae'n dymuno apelio yn erbyn ei euogfarn i Lys y Goron.

**Sut caiff apêl y dyn ei dyfarnu gan Lys y Goron?**

A. Mewn gwrandawiad o'r holl dystiolaeth gan Farnwr Llys y Goron mewn eisteddiad gydag ynadon lleyg (lay).

B. Mewn gwrandawiad o'r holl dystiolaeth gan Farnwr Llys y Goron a rheithgor.

C. Mewn gwrandawiad o'r holl dystiolaeth gan Farnwr Llys y Goron mewn eisteddiad ar ei ben ei hun.

D. Gan Farnwr Llys y Goron mewn eisteddiad ar ei ben ei hun gan ystyried dim ond seiliau ysgrifenedig yr apêl.

E. Gan Farnwr Llys y Goron mewn eisteddiad ar ei ben ei hun gan ystyried dim ond pwyntiau'r gyfraith a ardystiwyd gan y Llys Ynadon.

**Cwestiwn 70**

Mae menyw oedrannus yn mynd i fyw gyda'i merch oherwydd ei bod hi'n mynd yn gorfforol fethedig (physically infirm) ac nid yw hi'n gallu byw'n annibynnol mwyach. Wrth symud i mewn gyda'i merch, mae'r fenyw'n penderfynu rhoi mwyafrif ei hystad i'w merch. Mae hi'n cau y rhan fwyaf o'i chyfrifon banc a chymdeithas adeiladu ac yn trosglwyddo'r balansau terfynol (tua £900,000) i'w merch. Nid yw'r fenyw'n gwneud unrhyw roddion eraill.

Ddwy flynedd yn ddiweddarach, mae'r fenyw yn marw ac mae ei hystad yn cynnwys:

- cyd-gyfrif banc gyda'i merch gyda balans o £30,000
- cyfrif cynilo yn enw'r fenyw yn unig â balans o £75,000

Nid oes gan y fenyw unrhyw asedau dramor ac nid oes ganddi fuddiant dan ymddiriedolaeth.

Mae'r fenyw yn gadael ewyllys lle mae hi'n penodi ysgutorion, ac yn rhoi ei hystad i'w hoff elusen.

Mae'r ysgutorion yn paratoi'r cais am grant profiant ac yn dymuno gwybod a yw'n ofynnol iddynt gyflwyno ffurflen IHT400.

**Pa un o'r canlynol sy'n esbonio orau a oes rhaid i'r ysgutorion gyflwyno ffurflen IHT400?**

A. Nid oes rhaid iddynt, oherwydd bod gwerth ystad y fenyw yn llai na £3,000,000.

B. Mae'n rhaid iddynt, oherwydd bod Treth Etifeddiant yn daladwy ar farwolaeth y fenyw.

C. Nid oes rhaid iddynt, oherwydd rhoddwyd ystad weddilliol y fenyw i elusen.

D. Mae'n rhaid iddynt, oherwydd bod gan y fenyw fuddiant mewn cyd-gyfrif banc.

E. Nid oes rhaid iddynt, oherwydd ni wnaeth y fenyw unrhyw drosglwyddiadau trethadwy cyfnod oes (lifetime chargeable transfers).

**Cwestiwn 71**

Mae menyw yn berchen ar dŷ rhydd-ddaliadol a digofrestredig gyda gardd fawr. Am gydnabyddiaeth o £10,000, mae hi'n rhoi hawl i'w chymydog ddefnyddio llwybr dros ei gardd am byth (in perpetuity).

Mae'r fenyw a'r cymydog yn ymrwymo i weithred (deed) a ddrafftiwyd gan gyfreithiwr y fenyw sy'n cofnodi'r holl delerau y cytunwyd arnynt.

**A oes rhaid cofrestru'r hawddfraint (easement) hon?**

A. Oes, oherwydd ei bod yn cael ei rhoi wedi 1925, rhaid iddi gael ei chofrestru fel pridiant tir (land charge) D(iii).

B. Oes, oherwydd ei bod yn sbarduno cofrestriad cyntaf o'r rhydd-ddaliad a rhaid ei diogelu gan hysbysiad ar y Gofrestr Arwystlon (Charges Register) o'r teitl rhydd-ddaliad sydd newydd gofrestru.

C. Nac oes, oherwydd ei bod yn warediad cofrestradwy (registrable disposition) ond mae'n ddarostyngedig i'r athrawiaeth hysbysu (doctrine of notice).

D. Nac oes, oherwydd ei bod yn rhwymo'r byd (binds the world).

E. Nac oes, oherwydd ei bod yn sbarduno cofrestriad cyntaf o'r rhydd-ddaliad ac mae wedi'i diogelu fel buddiant gor-redol (overriding interest).

**Cwestiwn 72**

Mae cwmni o gyfreithwyr yn gweithredu ar ran prynwr eiddo. Mae'r cwmni yn dal £1,500 i'r cleient ar gyfrif costau yn ei gyfrif banc cleientiaid cyffredinol. Mae'r cwmni yn derbyn anfoneb am £400 ynghyd â £80 o TAW mewn perthynas â ffi syrfëwr wedi'i hanfon i'r cwmni. Mae'r cleient yn gofyn i'r cwmni dalu'r anfoneb.

**Pa un o'r canlynol sy'n esbonio orau sut y dylai'r cwmni dalu'r anfoneb?**

A. Dylai'r cwmni dalu £480 o'i gyfrif banc busnes gan ddefnyddio'r prif ddull.

B. Dylai'r cwmni dalu £480 o'i gyfrif banc cleientiaid cyffredinol gan ddefnyddio'r prif ddull.

C. Dylai'r cwmni dalu £480 o'i gyfrif banc busnes gan ddefnyddio'r dull asiant.

D. Dylai'r cwmni dalu £480 o'i gyfrif banc cleientiaid cyffredinol gan ddefnyddio'r dull asiant.

E. Dylai'r cwmni dalu £400 o'i gyfrif banc cleientiaid cyffredinol gan ddefnyddio'r dull asiant ac £80 o'i gyfrif banc busnes gan ddefnyddio'r prif ddull.

**Cwestiwn 73**

Mae dyn yn prynu tŷ ac fe yw'r unig berchennog cyfreithiol. Mae ei chwaer yn symud i mewn gyda'r dyn ar ôl gwahanu o'i gŵr oherwydd nid yw hi'n gallu dod o hyd i unrhyw lety mae'n gallu fforddio ei rentu. Wrth drafod perchnogaeth y tŷ â'i chwaer, mae'r dyn yn addo y bydd yn: "gofalu amdani'n ariannol". Mae'r dyn yn esbonio na fydd yn rhaid iddi dalu unrhyw rent am fyw yn y tŷ oherwydd nid oes ganddo forgais. Maent yn cytuno y bydd hi'n talu hanner y costau tanwydd a threth y cyngor ac yn rhannu tasgau domestig yn y cartref.

Ddwy flynedd ar ôl i'r chwaer symud i mewn, mae'r dyn yn marw gan adael ei ystad i elusen. Erbyn hyn, mae sefyllfa ariannol ei chwaer wedi gwella yn dilyn terfynu ei hysgariad o'i gŵr.

Mae'r chwaer yn hawlio bod ganddi fuddiant llesiannol (beneficial interest) yn y tŷ sy'n codi dan ymddiriedolaeth ddeongliadol bwriad cyffredin (common intention constructive trust).

**A oes gan y chwaer fuddiant llesiannol yn y tŷ dan ymddiriedolaeth ddeongliadol bwriad cyffredin?**

A. Oes, oherwydd gellir dod i gasgliad bod bwriad cyffredin i rannu'r buddiant llesiannol o'r drafodaeth ddatganedig (express discussion) am ei sefyllfa ariannol hi.

B. Nac oes, oherwydd nid oedd hi'n wraig y dyn nac yn bartner heb briodi.

C. Oes, oherwydd ei bod hi wedi gweithredu i'w niwed ei hun (to her detriment) drwy rannu tasgau domestig a chyfrannu at gostau'r cartref.

D. Nac oes, oherwydd nid yw hi wedi gwrthbrofi'r rhagdybiaeth mai'r dyn yw'r unig berchennog llesiannol.

E. Nac oes, oherwydd nid yw hi wedi dioddef unrhyw niwed oherwydd bod ei sefyllfa ariannol wedi gwella ac nid yw hi'n dibynnu ar y dyn mwyach.

**Cwestiwn 74**

Mae menyw yn cytuno i roi benthyg ei fan hi i ddyn ar ôl iddo ddweud wrthi fod angen y fan arno i gyflawni "ychydig o fusnes". Mae'r fenyw'n gyfarwydd iawn â'r dyn ac yn ymwybodol bod ganddo sawl euogfarn am droseddau dwyn, bwrgleriaeth a lladrad. Nid yw'r dyn yn rhoi unrhyw fanylion i'r fenyw am yr hyn mae'n bwriadu ei wneud gyda'r fan ac nid yw'n dweud wrthi pryd neu ble mae'n bwriadu ei defnyddio.  Nid yw hi'n gofyn unrhyw gwestiynau iddo am ddefnydd arfaethedig y fan. Mae hi'n credu y bydd e'n defnyddio'r fan i gyflawni rhyw fath o drosedd a gyflawnwyd ganddo yn y gorffennol ac mae hithau'n bwriadu ei helpu i gyflawni trosedd o'r fath wrth fenthyg y fan iddo.

Ychydig o ddiwrnodau'n ddiweddarach, mae'r dyn, ar ei ben ei hun, yn defnyddio'r fan i gyflawni bwrgleriaeth.

Caiff ei arestio gan yr heddlu ychydig wedi hynny a chaiff y dyn a'r fenyw eu cyhuddo (charged) o fwrgleriaeth o ganlyniad.

**Pa un o'r canlynol sy'n esbonio orau a ellir canfod y fenyw'n euog o'r drosedd o fwrgleriaeth drwy ddarparu'r fan a ddefnyddiwyd yn y drosedd?**

A. Ni all fod yn euog oherwydd er ei bod hi wedi cynorthwyo'r dyn yn fwriadol i gyflawni'r drosedd o fwrgleriaeth, nid oedd hi'n bresennol ar adeg cyflawni'r drosedd.

B. Ni all hi fod yn euog oherwydd er ei bod hi wedi cynorthwyo'r dyn yn fwriadol i gyflawni'r drosedd o fwrgleriaeth, nid oedd hi'n gwybod pryd neu ble y byddai'n cyflawni'r drosedd.

C. Gall hi fod yn euog oherwydd ei bod hi wedi cynorthwyo'r dyn yn fwriadol i gyflawni trosedd ac roedd y drosedd o fwrgleriaeth o fewn yr ystod o droseddau roedd hi'n bwriadu eu cynorthwyo.

D. Ni all fod yn euog oherwydd er ei bod ei wedi cynorthwyo'r dyn i gyflawni trosedd yn fwriadol, nid oedd hi'n gwybod yn bendant y byddai'r dyn yn cyflawni trosedd o fwrgleriaeth.

E. Gall hi fod yn euog oherwydd ei bod hi wedi cynorthwyo'r dyn yn fwriadol i gyflawni trosedd ac mae hi'n atebol am unrhyw drosedd y mae e'n ei chyflawni wrth ddefnyddio'r fan.

**Cwestiwn 75**

Mae cyfreithiwr yn gweithredu ar ran dyn wrth brynu tŷ menyw. Nid yw contractau wedi'u cyfnewid eto ac mae'r cyfreithiwr ar fin gwneud chwiliadau ac ymholiadau.

Mae'r dyn wedi clywed bod y fenyw wedi torri coeden i lawr yn ei gardd yn ddiweddar, a oedd yn fwy na 100 mlwydd oed. Gwelodd y dyn fonyn coeden (tree stump) pan archwiliodd e'r eiddo. Mae’r dyn hefyd wedi clywed bod y fenyw wedi cweryla sawl tro gyda'i chymydog am gi'r cymydog yn cyfarth. Mae'r dyn yn deall bod y fenyw wedi torri'r goeden i lawr i fod yn faleisus i'r cymydog, oherwydd bod y goeden yn cynnig cysgod i ardd y cymydog. Nid oes unrhyw gyfathrebu wedi bod rhwng y dyn a’r fenyw.

Mae angen i'r cyfreithiwr adrodd yn ôl i'r dyn am unrhyw broblemau sy'n codi yn sgil torri'r goeden i lawr a pherthynas y fenyw â'i chymydog.

**Pa un/pa rai o'r chwiliadau a'r ymholiadau canlynol y bydd yn rhaid i'r cyfreithiwr ei wneud/eu gwneud er mwyn adrodd am y materion hyn wrth y dyn?**

A. Chwiliad awdurdod lleol yn unig.

B. Chwiliad awdurdod lleol ac ymholiadau am y gwerthwr yn unig.

C. Chwiliad amgylcheddol a chwiliad awdurdod lleol yn unig.

D. Chwiliad amgylcheddol ac ymholiadau y gwerthwr yn unig.

E. Ymholiadau y gwerthwr yn unig.

**Cwestiwn 76**

Mae partner mewn cwmni o gyfreithwyr yn cynnal archwiliad rheolaidd o ffeil y mae cyfreithiwr sy'n gyflogedig yn y cwmni hwnnw wedi gweithio arni. Mae'r ffeil yn ymwneud â mater lle'r oedd y cyfreithiwr yn gweithredu ar ran banc wrth drefnu morgais ar gyfer eiddo masnachol.

Wrth gynnal yr archwiliad, mae'r partner yn darganfod nad yw'r cyfreithiwr wedi cofrestru morgais y banc yn y Gofrestrfa Tir ac felly nid yw wedi cyflawni cyfarwyddiadau'r banc. Mae'n cael ei gadarnhau mai dyma'r unig achlysur lle nad yw'r cyfreithiwr wedi cofrestru morgais.

Wedi trafod y mater â'r cyfreithiwr, mae'r partner yn hyderus bod y cyfreithiwr yn gymwys i gyflawni ei rôl. Fodd bynnag, mae'r amgylchiadau'n golygu bod y partner yn credu y gallai'r banc ddioddef colled sylweddol o ganlyniad i'r hepgoriad hwn.

**Pa un o'r canlynol yw'r ffordd orau o weithredu i'r partner nawr?**

A. Rhaid i'r partner esbonio'r sefyllfa i'r banc a rhoi cyngor bod angen cyngor cyfreithiol annibynnol.

B. Rhaid i'r partner roi gwybod i'r Ombwdsmon Cyfreithiol am hepgoriad y cwmni i gofrestru'r morgais.

C. Rhaid i'r partner roi gwybod i'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr am hepgoriad y cwmni i gofrestru'r morgais ac anfon copi o'r ffeil iddo.

D. Rhaid i'r partner ddarparu manylion yswirwyr indemniad proffesiynol y cwmni i'r banc.

E. Rhaid i'r partner ddychwelyd yr holl ffioedd a dalwyd gan y banc i'r cwmni mewn perthynas â'r ffeil hon.

**Cwestiwn 77**

Mae merch sy'n 14 oed yn cael ei chanfod yn euog mewn treial yn y Llys Ieuenctid am drosedd o glwyfo (wounding) yn groes i a.20 o Ddeddf Troseddau Corfforol 1861 a bydd hi'n cael ei dedfrydu. Mae'r llys wedi derbyn adroddiad cyn dedfrydu. Dyma drosedd gyntaf y ferch.

Wrth bennu'r ddedfryd briodol, mae'r ynadon yn ystyried gorchymyn cadw a hyfforddi (detention and training order - DTO) am wyth mis, ond maent yn dod i'r casgliad cywir na ellir rhoi'r ddedfryd hon i'r ferch.

**Pam mae'r ynadon yn gywir nad oes modd rhoi'r ddedfryd hon i'r ferch?**

A. Oherwydd y cyfnod hiraf ar gyfer DTO y gellir ei roi yn y Llys Ynadon yw chwe mis.

B. Oherwydd nid yw'r ferch wedi cael dedfryd o orchymyn adsefydlu ieuenctid o'r blaen.

C. Oherwydd nid yw'r drosedd yn drosedd dditiadwy yn unig (indictable only offence).

D. Oherwydd nid yw'r ferch yn droseddwr mynych (persistent offender).

E. Oherwydd nid yw'r ferch wedi cael dedfryd o orchymyn atgyfeirio (referral order) o'r blaen.

**Cwestiwn 78**

Deng mlynedd yn ôl, prynodd brawd a chwaer dŷ i fyw ynddo gyda'i gilydd ar ôl iddynt adael y brifysgol. Pris prynu'r tŷ oedd £200,000. Cyfrannodd y chwaer £80,000 tuag at y pris prynu a chyfrannodd y brawd £20,000. Cyllidwyd gweddill y pris prynu gan gyd-forgais.

Roedd y weithred drosglwyddo (transfer deed) i'r brawd a'r chwaer yn cynnwys datganiad eu bod nhw'n cyd-berchen ar y tŷ fel cyd-dentantiaid mewn ecwiti (joint tenants in equity).

Ers hynny, mae'r brawd wedi cyfarwyddo ei gyfreithiwr i hollti y cyd-denantiaeth mewn ecwiti.

Anfonodd cyfreithiwr y brawd rybudd hollti (notice of severance) o'r cyd-denantiaeth mewn ecwiti ('y Rhybudd') drwy Signed For y Post Brenhinol (sef y fersiwn fodern o 'Recorded Delivery'). Pan gyrrhaeddodd y Rhybudd y tŷ, cymerodd y glanhawr ohono a llofnodi i gadarnhau ei fod wedi'i dderbyn pan oedd y brawd a'r chwaer allan yn y gwaith. Fodd bynnag, yn ddiofal mae'r glanhawr wedi rhoi'r Rhybudd ar frig cwpwrdd uchel ac nid yw'r chwaer, yr oedd y Rhybudd wedi'i gyfeirio ati, wedi ei weld.

Wythnos yn ddiweddarach, bu farw'r chwaer mewn damwain beic.

**Beth oedd natur perchnogaeth y tŷ mewn ecwiti yn syth cyn marwolaeth y chwaer?**

A. Cyd-denantiaeth gyda'r brawd a'r chwaer ill dau yn dal y cyfan.

B. Cyd-denantiaeth gyda'r brawd a'r chwaer yn dal 50% yr un.

C. Tenantiaeth ar y cyd (tenancy in common) gyda'r brawd a'r chwaer yn yn dal 50% yr un.

D. Tenantiaeth ar y cyd (tenancy in common) gyda'r brawd yn dal 20% a'r chwaer yn dal 80%.

E. Tenantiaeth ar y cyd (tenancy in common) 50%, gyda'r brawd yn dal 10% a'r chwaer yn dal 40%, ac mae’r 50% sy'n weddill yn gyd-denantiaeth gyda'r brawd a'r chwaer ill dau yn dal y cyfan o'r 50% hwnnw.

**Cwestiwn 79**

Mae gan ddyn, sy'n 75 oed ac sydd yng nghamau cynnar dementia, apwyntiad gyda chyfreithiwr i lunio ewyllys newydd. Mae ewyllys bresennol y dyn yn rhoi popeth i'w wraig gyda rhodd sylweddol i'w ferch os bydd ei wraig yn marw cyn ef.

Mae'r dyn yn dweud wrth y cyfreithiwr ei fod ef a'i ferch wedi cael ffrae ddifrifol ac nid yw e am iddi fod yn fuddiolwr i'w ewyllys mwyach. Byddai'n well ganddo i'r arian fynd at "achos da" ac mae am i elusen sy'n ymchwilio i driniaethau ar gyfer dementia fod yn fuddiolwr amnewidiol (substitutional beneficiary) os na fydd ei wraig yn ei oroesi.

Mae'r dyn yn rhoi atodlen o'i asedau i'w gyfreithiwr yr oedd yn bosib iddo ei pharatoi gyda help ei wraig.

Mae'r cyfreithiwr yn gofyn am wybodaeth am ddiagnosis meddygol y dyn. Mae'r dyn yn rhoi adroddiad meddygol iddi a baratowyd chwe mis yn ôl sy'n dweud bod arno ddementia. Mae'n nodi, er bod y dyn yn dangos arwyddion o fod yn anghofus, bydd ei weithrediad gwybyddol (cognitive function) yn gwaethygu'n raddol. Mae'r cyfreithiwr yn siarad â'r dyn am yr archwiliad meddygol ac mae hi'n dod i'r casgliad bod yr adroddiad meddygol yn gynhwysfawr.

**Pa gam, os o gwbl, y dylai'r cyfreithiwr ei gymryd i gadarnhau bod gan y dyn allu ewyllysiol (testamentary capacity)?**

A. Dylai hi gael cydsyniad y dyn i ymgynghori ag ymarferydd meddygol i gadarnhau a oes ganddo'r gallu i wneud ewyllys newydd.

B. Ni fydd yn rhaid iddi gymryd unrhyw gamau gan ei bod hi'n fodlon bod yr adroddiad meddygol yn gynhwysfawr.

C. Dylai hi roi copi o'r adroddiad meddygol gydag ewyllys newydd y dyn i gadarnhau bod ganddo allu ewyllysiol (testamentary capacity) pan wnaeth ei ewyllys newydd.

D. Dylai hi ofyn am gydsyniad y dyn i ymgynghori â'r wraig i wirio cywirdeb ei gyfarwyddiadau.

E. Dylai hi gael cydsyniad y dyn i ymgynghori â'i ymarferydd meddygol i gadarnhau mai'r adroddiad meddygol yw'r un diweddaraf a baratowyd ar ei gyfer.

**Cwestiwn 80**

Mae cronfa ymddiriedolaeth yn cynnwys cyfranddaliad mawr mewn cwmni cyfyngedig. Caiff un o ymddiriedolwyr yr ymddiriedolaeth ei benodi'n gyfarwyddwr y cwmni o ganlyniad i berchnogaeth yr ymddiriedolaeth o'r cyfrannau. Mae'r ymddiriedolwr yn derbyn £10,000 mewn ffioedd cyfarwyddwr a £3,000 pellach mewn ad-daliad am dreuliau a gafwyd wrth gyflawni ei ddyletswyddau fel cyfarwyddwr.  Nid yw gweithred yr ymddiriedolaeth (trust deed) yn dweud dim ynghylch a allai'r ymddiriedolwr gadw naill ai'r ffioedd neu'r treuliau.

**Pa un o’r datganiadau canlynol sy’n esbonio orau sefyllfa'r ymddiriedolwr?**

A. Gall gadw'r ffioedd a'r treuliau.

B. Gall gadw'r treuliau ond dim y ffioedd.

C. Ni all gadw'r ffioedd na'r treuliau.

D. Gall gadw'r ffioedd a'r treuliau os caniateir iddo wneud hynny gan y cyfarwyddwyr eraill.

E. Gall gadw'r ffioedd a'r treuliau os caniateir iddo wneud hynny gan yr ymddiriedolwyr eraill.

**Cwestiwn 81**

Caiff dyn ei gyhuddo o (charged with) fwrglera tŷ annedd ddibreswyl (unoccupied dwelling house) lle caiff nwyddau trydanol eu dwyn.  Caiff ei ryddhau ar fechnïaeth o orsaf yr heddlu i fynd i'r gwrandawiad cyntaf yn y Llys yr Ynadon. Nid oes gan y dyn euogfarnau blaenorol.

Mae cyfreithiwr y dyn yn derbyn manylion cychwynnol achos yr erlyniad cyn y gwrandawiad cyntaf ac yn cymryd cyfarwyddiadau'r dyn. Mae'r dyn yn gwadu'r honiad o fwrgleriaeth ac mae ei gyfreithiwr yn ei gynghori i gyflwyno ple dieuog yn y gwrandawiad cyntaf. Mae'r dyn yn dweud wrth ei gyfreithiwr yr hoffai gael ei dreial yn Llys y Goron gerbron rheithgor. Mae'n gofyn i'w gyfreithiwr sut y gwneir y penderfyniad am ble i gynnal ei dreial am drosedd bwrgleriaeth.

**Pa gyngor dylai'r cyfreithiwr ei roi mewn perthynas â sut y gwneir penderfyniad am ble i gynnal treial y dyn?**

A. Bydd yr ynadon yn penderfynu a ddylent dderbyn awdurdodaeth am y treial ac os bydd yr ynadon yn derbyn awdurdodaeth, gall y dyn ddewis cael treial yn Llys y Goron gerbron rheithgor.

B. Rhaid i'r ynadon anfon yr achos at Lys y Goron ar gyfer treial a chaiff y dyn ei brofi gan reithgor.

C. Mae gan yr ynadon awdurdodaeth weithredol (exclusive jurisdiction) dros achos y dyn ac ni ellir ei brofi yn Llys y Goron gan reithgor.

D. Bydd yr ynadon yn penderfynu derbyn yr awdurdodaeth am y treial a dim ond os bydd yr ynadon yn gwrthod awdurdodaeth y gellid profi'r dyn mewn Llys y Goron gerbron rheithgor.

E. Bydd yr ynadon yn gwahodd y dyn i ddewis a ddylid ei brofi yn Llys y Goron gerbron rheithgor.

**Cwestiwn 82**

Mae prynwr wedi cyfnewid contractau ar gyfer prynu tŷ rhydd-ddaliadol. Mae'r dyddiad cwblhau yn y contract yn bum niwrnod ar ôl y cyfnewid ('y Dyddiad').

Y diwrnod ar ôl cyfnewid y contractau, mae'r prynwr yn dweud wrth ei gyfreithiwr na all hi ddod o hyd i'r cronfeydd angenrheidiol i gwblhau ei phryniant am ddwy wythnos arall.

Mae'r contract yn ymgorffori'r Amodau Gwerthu Safonol (Pumed Argraffiad - Diwygiad 2018) (SCS) heb amodau arbennig perthnasol.

Mae'r prynwr yn ceisio cyngor am ei sefyllfa'n unol â'r contract, gan gofio na all hi gwblhau ar y Dyddiad.

**Pa gyngor dylid ei roi i'r prynwr?**

A. Bydd yr SCS yn amnewid (substitute) dyddiad 15 niwrnod gwaith ar ôl dyddiad cyfnewid y contractau fel y dyddiad cwblhau newydd (gan fod amser yn brin) ac ar ôl hyn, gall y gwerthwr ailwerthu'r tŷ os nad yw'r cwblhad wedi digwydd erbyn hynny.

B. Bydd yr SCS yn amnewid dyddiad 20 o ddiwrnodau gwaith ar ôl cyfnewid y contractau fel y dyddiad cwblhau newydd (gan fod amser yn brin), ac ar ôl hyn, gall y gwerthwr gyflwyno hysbysiad o ddad-wneud (notice of rescission) a hawlio iawndal (damages) os nad yw'r cwblhad wedi digwydd erbyn hynny.

C. Mae'r SCS yn darparu bod amser yn brin felly bydd gan y prynwr tan 6pm ar y Dyddiad i gwblhau, ac os na fydd yn gwneud hynny bydd gan y gwerthwr hawl i ddad-wneud (rescind) y contract a hawlio iawndal (damages) ar unwaith.

D. Mae'r SCS yn darparu nad yw amser yn brin a bydd gan y gwerthwr hawl ar unrhyw adeg wedi 2pm ar y Dyddiad i fforffedu a chadw'r blaendal a'r llog a gronnwyd ond gall roi pum niwrnod gwaith pellach i'r prynwr gwblhau (gan fod amser yn brin).

E. Mae'r SCS yn darparu nad yw amser yn brin a bydd gan y gwerthwr hawl ar unrhyw adeg wedi 2pm ar y Dyddiad i roi hysbysiad i'r prynwr i gwblhau (notice to complete) sy'n gwneud amser yn brin ac yn rhoi deng niwrnod gwaith i gwblhau.

**Cwestiwn 83**

Mae ewyllysiwr yn marw ac mae ei ysgutor yn ystyried telerau ei ewyllys. Mae’r ewyllys yn cynnwys y cymal canlynol:

"Rhoddaf y swm o £20,000 yn ddi-dreth i'm nith (niece) ar yr amod ei bod hi'n cyrraedd 18 oed."

Rhoddir yr ystad weddilliol i bartner sifil yr ewyllysiwr sy'n goroesi'r ewyllysiwr.

Bu farw'r nith yn ddiewyllys yn 20 oed, dair blynedd cyn yr ewyllysiwr. Cafodd ei goroesi gan ei gŵr a'u hunig blentyn, sy'n fab 3 oed. Gwerth ystad y nith oedd £6,000 net.

**Pa un o’r datganiadau canlynol sy’n rhoi’r cyngor gorau i'r ysgutor ynglŷn â chymynrodd (legacy) y nith?**

A. Bydd y gymynrodd o £20,000 yn rhan o ystad y nith a bydd yn pasio i'w gŵr yn unol â diewyllysedd y nith.

B. Bydd y gymynrodd o £20,000 yn rhan o ystad y nith a bydd yn cael ei chadw mewn ymddiriedolaeth i'w mab yn unol â diewyllysedd y nith.

C. Bydd y gymynrodd o £20,000 yn rhan o ystad y nith a bydd yn cael ei chadw mewn ymddiriedolaeth i'w mab o dan a.33 o Ddeddf Ewyllysiau 1837.

D. Bydd y gymynrodd o £20,000 yn methu a bydd yn pasio i bartner sifil yr ewyllysiwr fel rhan o'r ystad weddilliol.

E. Bydd y gymynrodd o £20,000 yn methu a bydd yn pasio yn unol â diewyllysedd rhannol yr ewyllysiwr.

**Cwestiwn 84**

Roedd dyn yn berchen ar dŷ rhydd-ddaliadol cofrestredig yn Lloegr heb forgais. Er mwyn cyllido estyniad yn y tŷ, benthycodd swm mawr o arian o'i fanc a rhoi morgais cyfreithiol cyntaf i'r banc.

Roedd y cyfreithiwr sy'n cynrychioli'r dyn a'i fanc yn ymdrin â chwblhad y morgais cyfreithiol hwn yn syth cyn mynd ar wyliau. Cynhaliodd y cyfreithiwr y chwiliadau priodol. Cafodd y morgais ei gwblhau a'i ddyddio ar ddiwrnod olaf yn y gwaith y cyfreithiwr cyn mynd ar ei gwyliau ac ni chafodd y cyfreithiwr y cyfle i gofrestru'r morgais gyda'r Gofrestrfa Tir yn syth.

Wrth ddychwelyd o'i gwyliau, mae'r cyfreithiwr am barhau i gwblhau cofrestriad y morgais yn gyflym i sicrhau na chaiff unrhyw derfyn amser pwysig ei golli.

**Erbyn pryd dylai'r cyfreithiwr gyflwyno cais i gofrestru'r morgais yn y Gofrestrfa Tir?**

A. Dyddiad dod i ben y cyfnod amddiffyn yn y chwiliad pridiannau tir canolog (central land charges search) (K15) yn erbyn enw'r dyn.

B. Dyddiad dod i ben deufis o ddyddiad cwblhau'r morgais.

C. Dyddiad dod i ben y cyfnod blaenoriaeth yn chwiliad y Gofrestrfa Tir (OS1).

D. Dyddiad dod i ben y cyfnod amddiffyn yn y chwiliad methdaliad (K16) yn erbyn y dyn.

E. Dyddiad dod i ben y cyfnod am dalu unrhyw Dreth Dir y Dreth Stamp.

**Cwestiwn 85**

Mae menyw yn cerdded ar hyd ffordd pan fydd dyn yn dod tuag ati yn gofyn iddi am arian. Mae'r fenyw'n gwrthod rhoi unrhyw arian iddo ac mae'r dyn yn ei sarhau (insult).

Mae'r fenyw'n gwylltio ac yn slapio'r dyn gyda'i llaw dde, gan sylweddoli wrth iddi wneud hynny y gallai hi achosi peth niwed corfforol iddo. Mae'r fenyw yn gwisgo modrwy ar fys ei llaw dde sy'n achosi toriad croen dwfn i foch y dyn wrth iddi ei slapio. Nid yw'r fenyw yn meddwl o gwbl am ei modrwy wrth iddi slapio'r dyn ac nid yw hi'n sylweddoli y gallai hi dorri croen ei wyneb. Nid yw hi'n bwriadu clwyfo nac anafu'r dyn yn ddifrifol.

Caiff y fenyw ei harestio mewn perthynas â'r digwyddiad ac yn ddiweddarach, caiff ei chyhuddo o (charged with) glwyfo'r dyn yn faleisus (malicious wounding) yn groes i a.20 o Ddeddf Troseddau Corfforol 1861.

**A oes gan y fenyw y mens rea sy'n ofynnol ar gyfer y drosedd o glwyfo'n faleisus wrth iddi slapio'r dyn?**

A. Nac oes, oherwydd ni wnaeth hi sylweddoli y gallai hi glwyfo'r dyn.

B. Nac oes, oherwydd ni wnaeth hi fwriadu clwyfo'r dyn.

C. Oes, oherwydd ei bod hi wedi sylweddoli y gallai hi achosi peth niwed corfforol i'r dyn.

D. Nac oes, oherwydd wnaeth hi ddim bwriadu anafu'r dyn yn ddifrifol.

E. Oes, oherwydd ei bod hi wedi bwriadu defnyddio grym ar y dyn a gwnaeth y grym hwnnw achosi clwyf.

**Atebion**

| Cwestiwn | Ateb | Cwestiwn | Ateb |
|---|---|---|---|
| 1 | B | 46 | E |
| 2 | A | 47 | A |
| 3 | E | 48 | D |
| 4 | B | 49 | C |
| 5 | D | 50 | D |
| 6 | E | 51 | A |
| 7 | B | 52 | E |
| 8 | D | 53 | B |
| 9 | E | 54 | C |
| 10 | A | 55 | D |
| 11 | D | 56 | A |
| 12 | D | 57 | E |
| 13 | A | 58 | B |
| 14 | D | 59 | D |
| 15 | C | 60 | B |
| 16 | C | 61 | B |
| 17 | E | 62 | C |
| 18 | D | 63 | A |
| 19 | D | 64 | C |
| 20 | A | 65 | C |
| 21 | A | 66 | D |
| 22 | B | 67 | A |
| 23 | D | 68 | A |
| 24 | E | 69 | A |
| 25 | A | 70 | B |
| 26 | D | 71 | D |
| 27 | D | 72 | A |
| 28 | C | 73 | D |
| 29 | B | 74 | C |
| 30 | C | 75 | B |
| 31 | D | 76 | A |
| 32 | D | 77 | D |
| 33 | A | 78 | C |
| 34 | C | 79 | A |
| 35 | C | 80 | B |
| 36 | A | 81 | A |
| 37 | C | 82 | E |
| 38 | A | 83 | D |
| 39 | E | 84 | C |
| 40 | E | 85 | C |
| 41 | E | | |
| 42 | D | | |
| 43 | A | | |
| 44 | B | | |
| 45 | D | | |

Mae'r ddogfen hon yn ddarostyngedig i'n telerau ac amodau gwasanaeth, gan gynnwys y darpariaethau hawlfraint a nodau masnach.

I gael gwybod mwy: https://sqe.sra.org.uk/policies/website-terms-and-conditions-policy